



# **CYNLLUN IAITH DIWYGIEDIG**

**a baratowyd yn unol â gofynion  
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Cymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg,  
20 Chwefror 2014

## **Cynllun Iaith Diwygiedig**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno Cynllun Iaith Diwygiedig Prifysgol Aberystwyth i aelodau'r Cyngor drwy i) esbonio'r gofynion i lunio Cynllun Iaith Gymraeg o dan amodau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993; ii) gwybodaeth am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011; iii) amlinellu cynnwys y Cynllun a iv) esbonio'r rhesymeg y tu ôl i lunio Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

### **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Gosododd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru phwysleisiwyd tair agwedd:

- Gosodwyd cyfrifoldeb ar y sector cyhoeddus yng Nghymru i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru;
- Rhoddwyd hawl sylfaenol i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys;
- Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i arolygu'r modd y gweithredwyd yr addewidion hyn ac i hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg. Roedd awdurdod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei holl weithgaredd yn deillio o'r Ddeddf Seneddol hon. Roedd gan y Bwrdd swyddogaethau a oedd wedi'u diffinio'n gyfreithiol a'i brif swyddogaeth oedd gweithredu Deddf Iaith 1993. Yn Ebrill 2012, diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae Mesur y Gymraeg yn trosglwyddo swyddogaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n ymwneud â Chynlluniau Iaith i Gomisiynydd y Gymraeg.

### **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gydsyniad brenhinol ar 9 Chwefror 2011. Mae'r Mesur hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru; darparu ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Gymraeg; sefydlu Comisiynydd y Gymraeg; darparu ar gyfer Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg; gwneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg; creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith; sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; gwneud darpariaeth ynglŷn ag ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg; diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Swyddfa'r Comisiynydd sydd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro Cynlluniau Iaith. Mae'r Comisiynydd wrthi yn pennu Safonau Iaith a fydd yn berthnasol i Gymru gyfan ac a fydd yn disodli'r Cynlluniau Iaith Gymraeg maes o law. Fodd bynnag, tan y bydd y Safonau Iaith yn eu lle, bydd y Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig hwn yn parhau yn weithredol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

## Y Cynllun Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi sut y bydd y Brifysgol yn cynnal ac yn datblygu ei gwasanaethau dwyieithog. Mae hefyd yn dangos sut y bydd y Brifysgol yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a nodir yn adran 5 Deddf 1993 drwy sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd (staff, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r cyhoedd yng Nghymru) yn medru defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'u dewis personol. , Mae'r Cynllun Diwygiedig drafft wedi'i rannu'n adrannau, fel yr awgrymir gan y Canllawiau Statudol 'Cynlluniau Iaith Gymraeg – eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.'<sup>1</sup> Rhennir yr adrannau fel hyn:

- Gohebu'n ysgrifenedig a chyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn (4.1; 4.2)
- Cynnal cyfarfodydd (4.3; 4.4)
- Y Rhyngrwyd (4.5)
- Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad (4.6; 4.7)
- Deunydd a gyhoeddir gan y Brifysgol (4.8; 4.9)
- Hysbysiadau i'r Wasg (4.10)
- Cyhoeddusrwydd (4.11; 4.12)
- Hysbysebion yn y wasg (4.13)
- Strategaeth Sgiliau Dwyieithog (4.14; 4.15)
- Hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg (4.16)
- Trefniadau gweinyddol ar gyfer hyrwyddo'r Cynllun (4.17)
- Cytundeb â thrydydd parti (4.18)
- Arolygu Gweithredu'r Cynllun (4.19)
- Cyhoeddusrwydd ar gyfer y Cynllun (4.20)

## Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Y prif ddatblygiad a geir yn y Cynllun Diwygiedig yw'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog. Mae cymal 6.2(11) y Cynllun Iaith presennol yn nodi bod y Brifysgol yn gweithredu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog fel rhan o'r broses gynllunio adnoddau dynol. Paratowyd y Strategaeth mewn ymgynghoriad ag Adnoddau Dynol, Grŵp Gweithredol y Cynllun Iaith Diwygiedig a'r Cydbwyllgor ar Ddefnyddio'r Gymraeg. Ymgynghorwyd hefyd â'r Uwch Dîm Rheoli, Penaethiaid Adrannau a chanolfannau a'r undebau llafur ym Mai 2008.

## Amcan y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Nid yw'r ddogfen yn cynnwys gweithdrefnau oherwydd byddant yn ffurfio rhan o'r canllawiau ar gyfer gweithredu'r Strategaeth. Prif amcan y Strategaeth yw cynorthwyo'r Brifysgol i weithredu ei Chynllun Iaith yn briodol mewn perthynas â staffio a darparu gwasanaeth i'r cyhoedd fel a ddiffinnir yn y Cynllun. Bwriad y Strategaeth yw trin y Gymraeg fel sgil ac mae'n ymateb sydd wedi'i gynllunio'n strategol er mwyn rheoli sgiliau cyfathrebu'r Brifysgol. Mae'r Strategaeth hefyd yn

---

<sup>1</sup> Am wybodaeth bellach gweler: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/119.pdf>

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

ystyried yr egwyddor o gydraddoldeb a sut y mae'r Brifysgol yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn ieithoedd swyddogol.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi sylw dyledus i natur, maint, lleoliad a gweithgaredd pob sefydliad yn unigol a'i berthynas â'r cyhoedd yng Nghymru wrth bennu pa fath o ganllawiau sy'n briodol i'w cynnwys mewn Cynllun Iaith, ac yn ystyried yr hyn "sy'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol". Mae Cynlluniau Iaith Gymraeg yn ddogfennau datblygol ac mae Prifysgol Aberystwyth yn gweithio o fewn amserlen a gytunwyd er mwyn gweithredu'r egwyddor cydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf cyn belled ag y mae hynny'n briodol i weithgaredd y Brifysgol.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

# Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993

## 1 Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Gwneir hyn drwy feithrin amgylchedd cefnogol a chadarnhaol fel y cyfoethogir y Brifysgol gan ei natur ddwyieithog wrth i ddwy iaith gael eu defnyddio'n naturiol yn unol â dewis yr unigolyn. Fel sefydliad rhyngwladol mae'r Brifysgol yn croesawu myfyrwyr a staff sy'n dymuno astudio a gweithio yn amgylchedd arbennig Aberystwyth.

### 1.1 Deddf Yr Iaith Gymraeg, 1993

O dan Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993 y mae gofyn i'r Brifysgol, fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, baratoi cynllun iaith.

Mae cynlluniau iaith yn seiliedig ar yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol a osodir yn y Ddeddf, ac i'r perwyl hwn, mae Prifysgol Aberystwyth wedi amlinellu'r canlynol yn y Cynllun Iaith a fabwysiadwyd yn Rhagfyr 2003:

*"Mae Prifysgol Aberystwyth wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Prifysgol Aberystwyth yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru."*

### 1.2 Cynnwys y Cynllun Iaith

Cymeradwywyd Cynllun Iaith y Brifysgol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Rhagfyr 2003. Paratowyd y cynllun hwnnw ar y sylfaen gref a osodwyd gan Bolisi Iaith y Brifysgol, ac mae'r Cynllun diwygiedig hwn yn barhad a datblygiad ar y Cynllun Iaith gwreiddiol. Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun diwygiedig hwn bydd Pwyllgor Strategaeth

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

y Gymraeg, un o gydbwyllgorau Cyngor a Senedd y Brifysgol, yn cymryd cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r Cynllun. Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg y Brifysgol sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd, a chyflwynir adroddiadau cyson gan y Ganolfan i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg ar y gwaith o weithredu'r Cynllun.

Bydd y Cynllun iaith diwygiedig hwn yn cynnwys:

- disgrifiad o'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan y Brifysgol;
- disgrifiad o'r camau a gymerir i ddarparu'r gwasanaethau dwyieithog hynny;
- manylion am ddulliau gweithredu, arolygu a gwerthuso;
- manylion am bwy a fydd yn gyfrifol am weithredu targedau'n llwyddiannus.

Bydd y Cynllun yn derbyn cymeradwyaeth lawn y Brifysgol ac yn cael ei ddsbarthu'n eang ymhlith aelodau presennol y Brifysgol, ynghyd ag aelodau newydd, a bydd ar gael i holl aelodau'r cyhoedd.

### 1.3 Gweithredu Egwyddor Cydraddoldeb

Ymdrinnir â'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal â'i gilydd er mwyn rhoi'r hawl a'r cyfle i'r cyhoedd gyfathrebu â'r sefydliad, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn eu dewis iaith, boed Gymraeg neu Saesneg, a derbyn gwasanaeth gan y Brifysgol yn yr iaith honno. Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol ac sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Nod y Cynllun iaith diwygiedig yw parhau i greu'r amodau lle gall aelodau'r Brifysgol, a'r cyhoedd yn eu hymwneud â'r Brifysgol, deimlo'n gartrefol wrth ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall.

Wrth fabwysiadu'r Cynllun iaith diwygiedig hwn bydd y Brifysgol yn creu'r amodau sy'n hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a'i gwneud yn ddewis naturiol i'r rheiny sy'n medru'r iaith, gan gydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da. Ymrwymir i:

- asesu'r effaith ar y Gymraeg wrth gynllunio gwasanaethau a mentrau ac wrth lunio polisïau a chyfundrefnau, gan ddefnyddio teclyn asesu effaith ieithyddol.<sup>2</sup> Cymerir camau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n gyson ag egwyddorion a chanllawiau'r Cynllun iaith

---

<sup>2</sup> Gw.'Cyngor ar Brif Ffrydio'r Iaith Gymraeg'.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

diwygiedig hwn. Bydd y camau hyn yn cael eu cymryd mewn cydweithrediad â Grŵp Gweithredol y Brifysgol;

- gyflwyno gwasanaeth o safon gydradd yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac i sicrhau cysondeb safon y gwasanaethau yn Gymraeg. Un o feini prawf y Cynllun yw na ddylai neb fod o dan anfantais wrth ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall. Yn greiddiol i hyn y mae cydnabod bod gwadu'r hawl i'r cyhoedd ddefnyddio eu dewis iaith yn eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol;
- barhau â'r gyfundrefn sydd wedi'i sefydlu eisoes i arolygu'r Cynllun a'i bolisïau, ynghyd â safonau'r gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg;
- roi gwybod am y Cynllun iaith diwygiedig hwn i aelodau'r Brifysgol gan gynnwys aelodau staff a myfyrwyr, a hefyd i ddarpar-fyfyrwyr a darpar-aelodau o'r staff;
- beidio â newid y Cynllun hwn heb ymgynghori a chytuno â Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Cynllun hwn yn disgrifio sut y mae'r Brifysgol yn bwriadu mynd ati i weithredu'r egwyddorion hyn.

## 1.4 Cefndir

### 1.4.1 Lleoliad ac Amcanion

Yn Aberystwyth, yn 1872, yr agorwyd sefydliad prifysgol cyntaf Cymru. Heddiw, mae dros 10,000 o fyfyrwyr wedi cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan gynnwys dros 3,000 o Gymru. Mae yma ddwy adran academaidd ar bymtheg, sy'n dysgu ystod eang o bynciau.

Aberystwyth yw prif ganolfan Sir Geredigion o ran dysg, diwylliant a gweinyddiaeth. Yn ôl cyfrifiad 2001, yr oedd dros 50% o boblogaeth Ceredigion yn datgan eu bod yn medru'r Gymraeg, er bod y canran hwn wedi disgyn i 47% erbyn cyfrifiad 2011. Yn Aberystwyth y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n gartref i drysorau llenyddol a diwylliannol pennaf y genedl, ac yn gronfa amhrisiadwy ar gyfer ymchwil ac ysgolheictod. Yma y mae Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru sydd hefyd yn gartref i Eiriadur Prifysgol Cymru. Mae pencadlys nifer o sefydliadau Cymreig eraill yn Aberystwyth.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Nod Prifysgol Aberystwyth yw datblygu ei thraddodiadau a'i henw da drwy gynnal addysg ac ymchwil o'r radd flaenaf. Mae hyrwyddo a chyflenwi anghenion addysgol Cymru yn gyfrifoldeb arbennig. Amcenir hefyd i gynnal a datblygu partneriaethau â diwydiant ac â sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt, ac i feithrin cydweithrediad rhwng gwahanol sefydliadau Prifysgol, mewn addysg ac ymchwil.

#### **1.4.2 Maint**

Yn ystod y flwyddyn 2011/12 roedd 10393 o fyfyrwyr wedi cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth i wneud cwrs gradd israddedig neu uwchraddedig yn amser-llawn neu'n rhan-amser. O'r rhain roedd 3306 o Gymru.

Mynegodd 1414 o'r myfyrwyr a gofrestrwyd ar gyrsiau amser-llawn yn 2011/12- fod ganddynt wybodaeth o'r Gymraeg.

Ar 1 Awst 2012 nifer staff Prifysgol Aberystwyth oedd 2145 ac roeddent wedi'u rhannu i'r dosbarthiadau canlynol:

Academaidd :	865
Gweinyddol/ Rheoli a Phroffesiynol	423
Gwasanaethau Campws	348
Clerigol/Ysgrifenyddol	239
Technegol	97
Bwrdd Cyflogau Amaethyddol	12
Bwrdd Diwydiant Cyfun (Trydanwyr)	14
Di-ddosbarth	145
Staff Arall	2

#### **1.4.3 Cynllun Strategol y Brifysgol**

Mae cenhadaeth y Brifysgol wedi'i hamlinellu yn ei Chynllun Strategol 2012-2017 sy'n cynnwys yr amcanion canlynol wrth ystyried y gymuned leol, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru:

##### **Seiliedig yn y gymuned**

Cydnabod pwysigrwydd ein cymuned a'n Cenedl a'r rhan sydd gennym i'w chwarae wrth gyfrannu at ganolfan ddiwylliannol, ieithyddol ac economaidd y rhanbarth a Chymru.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.



## **Cymuned Aber – cydweithio i lwyddo**

Rydym yn gweithio'n agos â'r gymuned leol ac yn cael ein cynnal ganddi. Rydym hefyd yn elwa'n fawr ar ein lleoliad, yn byw a bod mewn ardal o harddwch heb ei hail. Cydnabyddwn y cyfraniad y mae'r fro hon wedi'i wneud i fywyd y Brifysgol, a daliwn ni ati i geisio cyfoethogi bywyd diwylliannol, ieithyddol ac economaidd Aberystwyth a Chymru. Byddwn ni'n:

- Buddsoddi mewn mentrau sy'n cefnogi a meithrin y Gymraeg.
- Cydweithio'n agos ag ysgolion, colegau ac oedolion sy'n dysgu yn lleol, er mwyn ehangu drysau'r Brifysgol i fwy o bobl ac i ehangu ein cysylltiadau â'r gymuned.
- Ceisio prynu nwyddau a gwasanaethau'n gynaliadwy, yn aml drwy ddefnyddio cyflenwyr lleol a chydweithio'n agos â busnesau lleol.
- Cynorthwyo gweithgareddau sy'n annog ein myfyrwyr i weithio gyda grwpiau a chyrrff lleol.

### **Amcan 1 - Creu cyfleoedd**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Aberystwyth yn estyn croeso i staff a myfyrwyr o bob cefndir ac rydym yn gweithio gydag amryw gyrrff, gan gynnwys Stonewall, Ymddiriedolaeth Buttle, Athena SWAN a Chomisiynydd y Gymraeg, er mwyn hybu amrywioldeb a chyfle cyfartal i'n holl staff a myfyrwyr.

### **Amcan 3 – Dysgu sy'n ysbrydoli**

Rydym hefyd yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb arbennig dros hybu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn falch o gael cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn Aberystwyth. Cydweithiwn yn agos â'r Coleg er mwyn cyfoethogi ein darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd presenoldeb y Coleg hefyd yn helpu i hybu bywyd diwylliannol Cymru yn fwy eang, rhywbeth y mae ein myfyrwyr a'n staff – o ble bynnag y maen nhw'n hanu - yn ei gael yn elfen mor ddeniadol ac unigryw o Brofiad Aberystwyth.

Sicrhau bod y Brifysgol yn chwarae rhan flaenllaw yng Nghynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan ymgorffori ein Cangen o'r Coleg yn y Brifysgol fel y gallai chwarae rhan gyflawn wrth ddatblygu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Erbyn 2017 byddwn ni'n:

Cynyddu 20% nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

<http://www.aber.ac.uk/cy/strategicplan/>

#### **1.4.4 Strwythur a Darpariaeth**

Mae adrannau academaidd y Brifysgol wedi eu lleoli mewn saith Athrofa a sefydlwyd y rhan fwyaf ohonynt ar 1 Awst 2013 fel rhan o ailstrwythuro mewnol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynllunio ar gyfer darpariaethau dwyieithog o fewn strwythurau'r Athrofeydd o'r cychwyn a bydd cyfrifoldeb penodol ar Gyfarwyddwyr yr Athrofeydd i

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

sichau eu bod yn gweithredu o fewn gofynion y cynllun hwn. Mae Athrofeydd Prifysgol Aberystwyth yn cynnwys yr adrannau academaidd a gwasanaeth canlynol:

Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Athrofa'r Gwyddorau Dynol

Adran Seicoleg

Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg

Adran Mathemateg a Ffiseg

Adran Cyfrifiadureg

Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth

Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Adran Hanes a Hanes Cymru

Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth

Adran y Gyfraith a Throsedddeg

Ysgol Rheolaeth a Busnes

Adran Astudiaethau Gwybodaeth

Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol

Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Ysgol Gelf

Adran Ieithoedd Ewropeaidd

Adran y Gymraeg

Canolfan y Celfyddydau

Y Ganolfan Gerdd

Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion

Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes

Canolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Ysgol y Graddedigion

Gwasanaethau Gyrfaoedd

Canolfan Ryngwladol Saesneg

Cymorth Dysgu i Fyfirwyr

## 1.5 Datblygiad Polisi Iaith Prifysgol Aberystwyth

Mae polisi iaith y Brifysgol wedi'i ddatblygu ers dechrau'r chwedegau, pan sefydlwyd trefn o ddarparu ffurflenni a dogfennau dwyieithog i fyfirwyr, ac o ateb gohebiaeth Gymraeg yn yr iaith honno. Cafwyd adolygiad o'r polisi yn 1978 pan gyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr i'r Llys ac o ganlyniad ehangwyd y polisi yn sylweddol. Sefydlwyd Cydbwyllgor o'r Cyngor a'r Senedd i barhau i adolygu polisi'r Brifysgol ar y Gymraeg ac i oruchwylio'r modd y caiff ei adolygu. Cymeradwywyd y datganiad olaf o'r polisi hwn gan y Cyngor yn 1989. Seilir y polisi ar ddyfyniad yn y Siarter a fyn fod y Gymraeg, fel y Saesneg, yn iaith swyddogol y Brifysgol. Yr oedd y polisi yn gofalu am ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn meysydd fel addysg, gohebiaeth, hysbysiadau, arwyddion, cyfarfodydd awdurdodau a phwyllgorau a chyhoeddiadau. Yr oedd hefyd yn gofalu am ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu'r Gymraeg ac annog staff a fedrai'r Gymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith, boed yn waith dysgu academaidd neu waith gweinyddol. Yr oedd y gwasanaeth cyfieithu yn cael ei gynnal ar gyfer hyrwyddo gweithredu'r polisi.

Yn yr un modd, ers canol y chwedegau, cyflwynodd y Brifysgol raglen gynyddol o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â pholisi Prifysgol Cymru o ganolbwyntio datblygiadau yn y maes hwn mewn dau goleg, sef Aberystwyth a Bangor. Crëwyd swyddi ar gyfer darlithwyr â chyfrifoldeb arbennig dros ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn nifer o bynciau. Sefydlwyd Gradd Allanol yn 1980, sef cynllun sy'n rhoi cyfle i fyfirwyr rhan-amser astudio drwy'r Gymraeg at radd BA, ac mae'n rhan o ymrwymiad y sefydliad i ddarpariaeth addysg gydol oes. Noddwyd y datblygiadau hyn hyd ddechrau'r wythdegau gan Brifysgol Cymru, ac yn ddiweddarach gan Gyngor Ariannu'r Prifysgolion (UFC) a gyfrannodd swm blynyddol penodol i gydnabod y gost a oedd ynghlwm wrth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymgorfforwyd y cyfraniad hwn, er 1995, yn y grant adnewyddol i'r Brifysgol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mabwysiadodd y Cyngor Cyllido hefyd drefn o daliadau premiwm a grantiau datblygu i brosiectau penodol.

O dan y gyfundrefn fodiwlwr, sy'n gweithredu er 1993, y mae i bob fodiwl gyfeirnod sy'n dynodi'r pwnc, ac sy'n gwahaniaethu rhwng modiwlau Cymraeg a rhai Saesneg eu cyfrwng. Mae hefyd yn bosibl derbyn cyfran o'r hyfforddiant yn Gymraeg mewn

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfirwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfirwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

modiwlau eraill, a chael arholiad a chyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg mewn modiwlau Saesneg eu cyfrwng.

Yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993, cryfhaodd y Brifysgol ei pholisi iaith drwy baratoi'r Cynllun Iaith a gymeradwywyd gan Gyngor y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2003 a chan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Rhagfyr 2003. Sefydlwyd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg i fod yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd, a rhoddwyd cyfrifoldeb arbennig i un o'r Dirprwy Is-Gangellorion am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strwythurau monitro a fabwysiadwyd yr adeg honno wedi mynd o nerth i nerth ac yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r broses o weithredu gofynion y Cynllun Iaith.

## 1.6 Safonau Ansawdd wrth gyflwyno gwasanaethau a chyrsgiau yn Gymraeg

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwmo i osod a chynnal safonau wrth ddarparu ac arolygu'r gwasanaeth i'r cyhoedd a'r myfyrwyr yn Gymraeg. Cyflawnir hyn drwy strwythurau monitro sydd eisoes wedi'u sefydlu a mabwysiadu strwythurau newydd yn ôl yr angen. Ymhelaethir ar y strwythurau monitro yng nghymalau perthnasol y Cynllun hwn.

Bydd Uned Gyfieithu'r Brifysgol, sy'n rhan o Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, yn cefnogi'r Brifysgol wrth gydnabod yr un statws ieithyddol i'r ddwy iaith, drwy gyfieithu o'r naill iaith i'r llall lle bo angen.

Bydd cyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesu o ran ansawdd, yn yr un modd â'r cyrsiau a modiwlau cyfrwng Saesneg, drwy gyfundrefnau dysgu ac addysgu a sicrhau ansawdd y cyfadranau a'r Brifysgol. Yn achos pob cwrs academaidd a baratoir o'r newydd bydd angen i'r arweinwyr pwnc ymchwilio i'r galw am y cwrs yn gyffredinol ac am gyrsiau cyfrwng Cymraeg yn benodol fel rhan o'r broses ddilysu.

Bydd y Cyngor a'r Senedd, trwy Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg, yn gyfrifol am arolygu a monitro gweithredu Cynllun Iaith y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn datgan ei hymrwymiad i'r Cynllun Iaith yn gyhoeddus mewn cyhoeddiadau papur perthnasol ac ar ei gwefan.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg sydd yn gyfrifol am hysbysu aelodau o'r Brifysgol a'r cyhoedd am y Cynllun Iaith a'i ofynion, gan gynnig cefnogaeth i gyflawni amodau'r Cynllun.

## **2 Y Sefyllfa Bresennol**

### **2.1 Cynllun Iaith Gymraeg**

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol y Brifysgol yn ffurfiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2003. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig hwn yn disodli hwnnw.

### **2.2 Cynnal a Datblygu ethos Cymraeg y Brifysgol**

Y meysydd a fydd yn cael sylw wrth ddatblygu ethos dwyieithog y Brifysgol a gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf a'r Cynllun diwygiedig yw:

- Hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad yng Nghymru;
- Arwyddion gwybodaeth o fewn ffiniau Prifysgol Aberystwyth;
- Arwyddion gwybodaeth cyhoeddus eraill a leolir yng Nghymru;
- Cyhoeddi a phrintio deunydd sydd wedi'i gyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru;
- Ffurflenni a deunyddiau esboniadol sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru;
- Hysbysiadau i'r wasg sydd i'w dosbarthu yng Nghymru;
- Deunydd cyhoeddusrwydd, ymgyrchoedd hysbysebu, ymgyrchoedd marchnata a dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyhoeddusrwydd yng Nghymru;
- Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff yng Nghymru.

### **2.3 Sicrhau cyfleodd i'r cyhoedd ddefnyddio eu dewis iaith yn eu hymwneud â'r Brifysgol**

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Y meysydd a fydd yn cael sylw penodol er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf ac yn y Cynllun diwygiedig, ac y sefydlir polisiau pendant i'w gweithredu yw:

- Gohebu'n ysgrifenedig â'r cyhoedd;
- Cyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn;
- Cyfarfodydd cyhoeddus, gwrandawladau ac unrhyw gyfarfodydd cyfreithiol;
- Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd;
- Ymdrin â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill, e.e. ar y we, cyfathrebu drwy e-bost, cysylltiadau rhwydwaith fideo, systemau cyfarch cyhoeddus;
- Gohebu mewnol drwy lythyr ac e-bost;
- Darlithoedd, seminarau a thiworialau;
- Aseiniadau a thraethodau;
- Arholiadau ac asesiadau;
- Gwasanaeth tiwtoriaid.

## 2.4 Monitro a Chryfhau'r Ddarpariaeth

Ers cymeradwyo'r Cynllun y mae'r Brifysgol wedi sefydlu pwyllgorau i oruchwylio ei weithrediad. Mae'r pwyllgorau hyn yn allweddol wrth hyrwyddo a gweithredu gofynion y Cynllun. Yn ychwanegol at hyn gwnaed penodiadau allweddol ar lefel uchaf y Brifysgol a arweiniodd at sefydlu dwyieithrwydd yn rhan greiddiol o genhadaeth y sefydliad. Mae gan un o Ddirprwy Is-Ganghellorion y Brifysgol ofal am ddarpariaeth Gymraeg yn benodol. Bydd y Cynllun diwygiedig yn cynnal y strwythurau hyn er mwyn cynllunio, cryfhau a chynnal y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ym Mhrifysgol Aberystwyth.

- (i) **Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg**, o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg, sy'n gyfrifol am arolygu'r Cynllun a goruchwylio'r modd y caiff ei weithredu. Mae'n cyflwyno argymhellion i Gyngor y Brifysgol ac i'r Senedd, ar faterion yn ymwneud â hyrwyddo agweddau gweinyddol y Cynllun.
- (ii) Pwyllgor Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Gangen) sy'n arolygu darpariaeth academiaidd y Cynllun mewn ymgynghoriad â Phwyllgor Strategaeth y Gymraeg. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol yn mynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cyflwyno gerbron Grŵp Gweithredol y Brifysgol. Etholir Cadeirydd i'r Pwyllgor o blith staff academiaidd y Brifysgol sy'n dysgu drwy'r Gymraeg.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

- (iii) Mae Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn mynychu'r ddau bwyllgor a maent yn gyfrifol am weithredu'n ffurfiol eu hargymhellion, a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar waith Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.
- (iv) Mae Cyfarwyddwyr y Gymraeg a Diwylliant Cymru o bob Athrofa yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg ac o ganlyniad yn rhoi'r cyfle i drafod y ddarpariaeth Gymraeg yn adrannau academiaidd y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi'r cyfle i drafod y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg gyda myfyrwyr o Undeb y Myfyrwyr ac UMCA.

### **2.4.1 Agweddau Academiaidd**

Mae cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am Strategaeth Academiaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol ac mae ei haelodau'n cydweithio'n agos â'r Coleg i ddatblygu a hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg yn Aberystwyth. Ceir mwy o wybodaeth am weithgaredd Cangen y Brifysgol o'r Coleg ar ei gwefan (<http://www.aber.ac.uk/cy/ccc/>).

Paratwir adroddiadau blynyddol gan adrannau academiaidd ar eu darpariaethau cyfrwng Cymraeg a thrafodir unrhyw faterion penodol sy'n codi yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gangen a Phwyllgor Strategaeth y Gymraeg.

Disgwylir i adrannau roi gwybod hefyd i Bwyllgor y Gangen am unrhyw newidiadau yn eu darpariaethau Cymraeg.

Mae'r Gangen yn derbyn adroddiadau blynyddol o Swyddfa Denu a Derbyn y Brifysgol bob mis Tachwedd ac mae gan y Brifysgol Swyddog Marchnata'r Ddarpariaeth Gymraeg sy'n cydweithio'n agos â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Cyflwynir adroddiadau cyson gan y Swyddog Marchnata i gyfarfodydd Pwyllgor y Gangen.

### **2.4.2 Agweddau Gweinyddol**

Anogir myfyrwyr i gysylltu â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg i roi gwybod am unrhyw faterion yn codi yn ymwneud â gweithrediad y Cynllun. Trefnir hyn drwy gynrychiolwyr y myfyrwyr, ac yn arbennig UMCA, ond mae croeso i fyfyrwyr unigol gysylltu hefyd.

Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, aelodau'r Gangen ac aelodau UMCA yn cynnal arolwg parhaus o'r modd y mae'r weinyddiaeth yn gweithredu'n

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

ddwyieithog. Mae gan Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg swyddogaeth swyddogol yn hyn o beth wrth dderbyn adroddiadau ar gwynion a dderbynnir gan y Ganolfan ac mae'n cymeradwyo argymhellion ar gyfer gweithredu pellach. Os yw materion yn codi yn gyson bydd y Pwyllgor yn gweithredu mewn dwy ffordd bosibl, sef i) rhoi cyfarwyddyd i Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ymdrin â'r mater mewn ffordd benodol ac adrodd am y canlyniad neu ii) anfon cenadwri yn cynnwys argymhellion i Gyngor neu Senedd y Brifysgol fel sy'n briodol.

## 2.5 Asesu'r Galw i'r Dyfodol

Asesir y galw am ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y dyfodol trwy'r dulliau canlynol:

- Yr adroddiadau blynyddol a wneir ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol;
- Unrhyw alwadau a ddaw o blith darpar fyfyrwyr/myfyrwyr cyfredol/staff i sylw Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg;
- Yr angen am ddatblygiad pellach a ddaw yn sgil unrhyw lwyddiant yn y maes;
- Galwadau o du cyflogwyr a/neu'r cyhoedd;
- Galwadau a ddaw gan gyrff megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Y Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff galwedigaethol allanol;
- Galwadau a ddaw gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## 2.6 Cydweithio â Cholegau a Phrifysgolion/Sefydliadau Eraill

Mae datblygu cysylltiadau cydweithredol mewn dysgu ac addysgu yn un o chwe nod allweddol Cynllun Strategol 2012-17 Prifysgol Aberystwyth. Yn ogystal â hyn, mae materion cyfrwng Cymraeg yn un o'r meysydd blaenoriaeth yn y cynllun hwn.<sup>3</sup>

Trwy'r Cynghrair Strategol mae Prifysgolion Aberystwyth a Bangor yn edrych ar gydweithio er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg gan gydnabod bod buddsoddiad ar y cyd yn fanteisiol i'r ddau sefydliad.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydweithio'n llawn â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn gwireddu amcanion Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth ar

---

<sup>3</sup> Gw. <http://www.aber.ac.uk/cy/strategicplan/> ac Amcan 5 yn benodol, <http://www.aber.ac.uk/cy/strategicplan/partnerships/>.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.



gyfer y Sector Addysg Uwch. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol yn un o Gyfarwyddwyr y Coleg, ac mae gan y Brifysgol gynrychiolaeth ar bob un o'r is-grwpiau, ynghyd â'r Paneli Pwnc.

### **3 Y Cynllun**

Rhennir y Cynllun yn Gynllun Gweinyddol a Chynllun Academaidd. Bydd y Cynllun Gweinyddol yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ddwyieithog yn holl drefniadaeth weinyddol y Brifysgol, a'r Cynllun Academaidd yn ymdrin â datblygiadau cwricwlaidd.

### **4 Y Cynllun Gweinyddol**

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau dwyieithog a ddarperir i'r cyhoedd er mwyn hwyluso eu hymwneud â'r Brifysgol yn eu dewis iaith.

#### **4.1 Gohebu'n ysgrifenedig â'r cyhoedd**

4.1.1 Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Bydd papur pennawd safonol adrannau'r Brifysgol yn cynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw.

4.1.2 Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i sicrhau na fydd gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi wrth dderbyn ymateb. Bydd yr amseroedd cydnabod ac ateb gohebiaeth yn y naill iaith a'r llall yr un fath.

4.1.3 Bydd pob ateb ysgrifenedig i ohebiaeth a wneir yn enw neu ar ran y Brifysgol yn iaith yr ohebiaeth honno, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg.

4.1.4 Ymrwymir i ddechrau gohebu yn Gymraeg â'r rhai sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith, a'r rhai y siaradwyd â hwy wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn, yn Gymraeg yn y gorffennol. Ym mhob achos, gellir newid iaith yr ohebiaeth maes o law os dyna yw dymuniad y sawl y gohebir ag ef.

4.1.5 Bydd gohebiaeth swyddogol ysgrifenedig gan y weinyddiaeth a holl adrannau, canolfannau a gwasanaethau'r Brifysgol a anfonir at unigolion neu

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

sefydliadau yng Nghymru yn ddwyieithog, neu yn newis iaith yr unigolyn/sefydliad os yw'n wybyddus.

4.1.6 Bydd gohebiaeth swyddogol ysgrifenedig gan weinyddiaeth a holl adrannau, canolfannau a gwasanaethau'r Brifysgol a anfonir at fyfyrwyr ac aelodau'r staff yn ddwyieithog, neu yn newis iaith y myfyriwr/aelod staff os yw'n wybyddus.

4.1.7 Bydd atebion swyddogol ysgrifenedig i lythyron gan unigolion a sefydliadau yn yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr ohebiaeth wreiddiol.

4.1.8 Gofynnir i staff ddynodi ar holiadur a gyflwynir iddynt wrth eu penodi i swydd yn y Brifysgol ym mha iaith y maent yn dymuno derbyn gohebiaeth yn enw'r Brifysgol. Cedwir y manylion hyn ar gronfa ddata Adnoddau Dynol. Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn cydweithio ag Adnoddau Dynol i gynnal a chadw'r manylion hyn, a byddir yn darparu gwybodaeth i adrannau, canolfannau a gwasanaethau am ddewis iaith staff.

4.1.9 Bydd gohebiaeth rhwng y weinyddiaeth neu'r gwasanaethau canolog ac aelodau unigol o staff y Brifysgol yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dymuniad pob aelod o'r staff.

4.1.10 Gofynnir i fyfyrwyr, wrth iddynt gofrestru, ddynodi ym mha iaith y dymunant dderbyn gohebiaeth yn enw'r Brifysgol. Cedwir yr wybodaeth hon ar gronfa ddata'r myfyriwr, AStRA, ac mae gan bod adran, gwasanaeth a chanolfan fynediad i'r gronfa hon.

4.1.11 Bydd iaith gohebiaeth answyddogol gan aelod o adran academiaidd neu'r weinyddiaeth at fyfyrwr neu grŵp o fyfyrwyr yn ôl dymuniad pob myfyriwr fel y cafodd ei nodi yn AStRA.

4.1.12 Mae gan yr Uned Gyfieithu ganllawiau penodol i ddiogelu na fydd yr angen am gyfieithu gohebiaeth yn peri oedi cyn ateb.

4.1.13 Wrth anfon gohebiaeth ddwyieithog, gweithredir yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Caiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg eu dosbarthu yr un pryd.
- Bydd y naill fersiwn a'r llall yn gyfartal â'i gilydd o ran amlygrwydd a diwyg.
- Pan fo'r ohebiaeth wedi'i llofnodi, rhaid i'r llofnod ymddangos ar y fersiynau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyriwr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

- 4.1.14 Os bydd gohebiaeth fewnol â'r staff/myfyrwyr yn cynnwys atodiadau, papurau pwyllgor ayb a luniwyd gan gyrff a/neu sefydliadau allanol derbynir hwy yn yr iaith wreiddiol, ac ni ddisgwylir iddynt gael eu cyfieithu. Ond gwneir y cyrff hynny'n ymwybodol o'u dyletswydd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4.1.15 Mae gohebiaeth electronig yn ddarostyngedig i'r holl gymalau hyn. Pan fydd gohebiaeth electronig yn ddwyieithog, bydd y neges Gymraeg yn ymddangos uwchben y neges Saesneg. Mae canllawiau Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn dangos yn glir sut mae gosod neges e-bost yn ddwyieithog.

## **4.2 Cyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn**

- 4.2.1 Croesewir galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.2.2 Bydd staff y switsfwrdd canolog yn ateb pob galwad ffôn yn ddwyieithog boed honno'n alwad fewnol neu allanol. Bydd pob aelod o staff y switsfwrdd, gan gynnwys y rheiny a gyflogir i gyflenwi yn absenoldeb aelodau'r staff, yn abl ac yn barod i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg yn ôl y gofyn.
- 4.2.3 Os yw'r alwad yn cael ei chyfeirio at unigolyn dwyieithog, neu'n cael ei throsglwyddo iddo/iddi, yna dylai pob unigolyn dwyieithog ei gwneud yn amlwg wrth ateb ei fod yn ddwyieithog. Cynhelir y drafodaeth wedyn yn newis iaith yr un sy'n galw.
- 4.2.4 Os yw'r alwad yn cael ei chyfeirio at aelod o staff ysgrifenyddol adran benodol, neu'n cael ei throsglwyddo iddo/iddi, yna dylid ateb â chyfarchiad dwyieithog. Os bydd yr un sy'n galw am siarad Cymraeg, a'r aelod staff ysgrifenyddol yn ddi-Gymraeg, yna dylid trosglwyddo'r alwad i unigolyn dwyieithog o fewn yr adran.
- 4.2.5 Mewn adran academaidd lle ceir aelodau staff dwyieithog ond nad ydynt ar gael ar y pryd, dylid trefnu i rywun ffonio'n ôl, oni bai fod yr un sy'n galw'n dymuno trafod yn Saesneg.
- 4.2.6 Mewn adran academaidd lle nad oes aelodau staff dwyieithog ar y pryd dylid esbonio'r sefyllfa'n gwrtais a gofyn a yw'r un sy'n galw yn fodlon siarad â rhywun di-Gymraeg.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

- 4.2.7 Os yw'r un sy'n galw yn mynegi dymuniad i drafod yn Gymraeg, bydd y sawl sy'n derbyn yr alwad yn trefnu naill ai'n uniongyrchol, neu drwy ofyn am gymorth Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, bod siaradwr Cymraeg yn dychwelyd yr alwad cyn gynted â phosibl, ac o fewn dau ddiwrnod gwaith fan bellaf.
- 4.2.8 Mewn adran weinyddol lle nad oes neb ar y pryd yn ddwyieithog, dylid esbonio'r sefyllfa'n gwrtais a chynnig i'r un sy'n galw gael siarad â swyddog dwyieithog o adran weinyddol arall, neu ofyn a yw'r un sy'n galw yn fodlon siarad â rhywun di-Gymraeg, neu drosglwyddo'r alwad i Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Gellir hefyd gynnig y dewis i'r unigolyn i ysgrifennu'n Gymraeg at y Brifysgol a derbyn ymateb ysgrifenedig yn yr un iaith.
- 4.2.9 Ni roddir cyfarwyddyd penodol ynghylch y drefn o ateb galwadau ffôn i aelodau o'r staff nad ydynt yn gynrychiolwyr eu hadrannau a gwasanaethau, ac eithrio cyfarwyddyd am negeseuon ar beiriannau ateb (gw. 4.2.10 isod). Os byddant yn derbyn galwadau yn Gymraeg, disgwylir iddynt ymateb iddynt yn gwrtais, gan barchu dymuniad yr un sy'n galw i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 4.2.10 Bydd cyfarchion a chyfarwyddiadau ar beiriannau ateb ffôn y Brifysgol, gan gynnwys y switsfwrdd canolog a swyddfeydd ymholiadau'r adrannau a'r gwasanaethau, yn ddwyieithog.
- 4.2.11 Disgwylir i aelodau staff Cymraeg eu hiaith roi pob cyfle ac anogaeth i ddysgwyr sy'n dymuno trafod â hwy yn Gymraeg.
- 4.2.12 Pan fydd y Brifysgol yn darparu llinellau cymorth, ac yn trefnu llinellau ffôn agored, bydd y ddarpariaeth ar gael yn ddwyieithog fel y gall defnyddwyr y gwasanaeth holi a thrafod yn eu dewis iaith.
- 4.2.13 Mae'r Brifysgol yn cynnig hyfforddiant a chanllawiau i aelodau staff ynglŷn â chyfarch yn ddwyieithog, ymdrin â galwadau Cymraeg, a llunio negeseuon ar beiriannau ateb swyddogol.
- 4.3 Cyfarfodydd (gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, darlithoedd cyhoeddus, cynadleddau, trafodaethau wyneb yn wyneb, gwrandawiadau ac unrhyw gyfarfodydd cyfreithiol, cyfarfodydd eraill gydag aelodau o'r cyhoedd, e.e. diwrnodau ymweld a diwrnodau agored y Brifysgol)**

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

## **Cyfarfodydd cyhoeddus**

- 4.3.1 Bydd croeso i aelodau'r cyhoedd a'r staff siarad Cymraeg neu Saesneg mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus a drefnir gan y Brifysgol ac a gynhelir yng Nghymru. Darperir offer cyfieithu ar y pryd ar gyfer y cyfarfodydd hyn, a nodir hynny ar bosteri / gwahoddiadau.
- 4.3.2 Dwyieithog fydd pob hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir sy'n ymwneud â chyfarfodydd cyhoeddus. Bydd y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu'n uchaf.

## **Darlithoedd cyhoeddus a chynadleddau**

- 4.3.3 Wrth hysbysebu darlithoedd a chynadleddau cyhoeddus dylai'r deunyddiau fod yn Gymraeg a Saesneg. Dylai teitl darlithoedd cyhoeddus ymddangos yn yr iaith y traddodir hi.
- 4.3.4 Wrth drefnu darlithoedd cyhoeddus a chynadleddau, rhoddir ystyriaeth ar bob achlysur i'r priodoldeb o ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Anogir trefnwyr darlithoedd a chynadleddau i ystyried amcan y ddarlith/gynhadledd yn y cyd-destun ieithyddol, a bydd y Brifysgol yn mabwysiadu trefn ar gyfer mathau gwahanol o ddarlithoedd/gynadleddau. Bydd y mathau hyn yn ystyried y defnydd o iaith mewn cyflwyniad cyffredinol gan drefnydd / gadeirydd y ddarlith neu'r gynhadledd, natur ieithyddol y gynulleidfa, cyfrwng y sesiynau ffurfiol ac unrhyw waith grŵp. Bydd canllawiau'n cael eu paratoi i'r perwyl hwn.
- 4.3.5 Pan benderfynir nad oes angen gwasanaeth cyfieithu mewn darlith neu gynhadledd, cyfrifoldeb y sawl sy'n gyfrifol am drefniadau'r cyfarfod, a'r sawl sy'n llywyddu arno, fydd sicrhau fod hawl gan unrhyw unigolyn siarad yn Gymraeg a bod yr hyn a ddywedir yn Gymraeg yn cael ei gyfleu yn Saesneg i unrhyw aelod di-Gymraeg sy'n bresennol.
- 4.3.6 Yn achos cynadleddau a drefnir gan adrannau academiaidd ac sy'n ymwneud â meysydd academiaidd penodol, neu gyfarfodydd/darlithoedd y bydd aelodau'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt drwy wahoddiad neu drwy gofrestru, bydd disgwyl i'r trefnwyr hysbysebu'r gynhadledd yn ddwyieithog yng Nghymru.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

## **Trafodaethau wyneb yn wyneb, gwrandawiadau ac unrhyw gyfarfodydd cyfreithiol**

- 4.3.7 Galluogir unrhyw un sy'n dymuno cyfathrebu â'r Brifysgol wyneb yn wyneb, gan gynnwys annerch cyfarfod, i wneud hynny yn Gymraeg.
- 4.3.8 Mae gan unrhyw aelod o'r cyhoedd, staff neu fyfyrwr sy'n rhan o wrandawriad disgyblu, boed hynny fel y sawl a gyhuddir, neu fel tyst, yr hawl i ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl ei ddewis ym mhob cam o'r gwrandawriad. Dylai'r Cadeirydd/Cynullydd ofyn ymlaen llaw ym mha iaith y dymuna pob un sy'n cymryd rhan gyfrannu a phenderfynu a oes angen cyfieithydd ai peidio. Pan fydd unrhyw un yn mynegi bwriad i siarad Cymraeg, gwneir pob ymdrech i sicrhau panel o siaradwyr Cymraeg, ac os nad yw hynny'n bosibl bydd o leiaf un aelod o'r panel yn siarad Cymraeg, ac fe wneir trefniadau priodol ar gyfer cyfieithu ar y pryd.

## **Cyfarfodydd eraill gydag aelodau o'r cyhoedd a fydd yn ymweld â'r Brifysgol**

- 4.3.9 Bydd y staff sydd yn derbyn y cyhoedd i'r Brifysgol, e.e. yn nerbynfeydd yr adeiladau neu adrannau, yn gwneud hynny gyda chyfarfodiad dwyieithog.
- 4.3.10 Os yw'r derbynnydd yn medru'r Gymraeg, bydd yn gwneud hynny'n glir i'r cyhoedd ac yn rhoi'r cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis.
- 4.3.11 Os nad yw'r derbynnydd yn medru'r Gymraeg a bod yr unigolyn yn dymuno siarad yn Gymraeg gwneir trefniadau i gysylltu ag aelod o staff arall yn yr adran/adeilad sy'n medru'r Gymraeg. Os nad yw hynny'n bosibl bydd y derbynnydd yn esbonio'n gwrtais nad oes aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael, a gellir cynnig bod rhywun o adeilad neu adran arall sy'n medru'r Gymraeg yn dod i siarad â'r unigolyn os yw hynny'n ymarferol.
- 4.3.12 Bydd staff dwyieithog ar ddyletswydd yn ystod Diwrnodau Agored y Brifysgol er mwyn trafod gyda darpar fyfyrwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Bydd y staff hyn yn ei gwneud yn glir i'r cyhoedd eu bod yn medru'r Gymraeg ac yn hapus i siarad yn Gymraeg.
- 4.3.13 Bwriad y Brifysgol yw cynyddu'r niferoedd sy'n medru cynnal sgwrs elfennol drwy gyfrwng y Gymraeg drwy weithredu ei Strategaeth Sgiliau Ieithyddol (gw. adran 4.14 )

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

#### **4.4 Cyfarfodydd awdurdodau a chyrrff mewnol y Brifysgol**

4.4.1 Bydd y rhybudd a ddsberthir i alw cyfarfod o bob awdurdod neu bwyllgor neu gyfadran yn Gymraeg a Saesneg.

4.4.2 Bydd rhybudd, agenda a chofnodion y cyrrff canlynol yn ddwyieithog:

- Y Cyngor
- Y Senedd
- Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg
- Pwyllgor Cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Bydd rhybudd ac agenda'r cyrrff canlynol yn ddwyieithog:

- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Cyllid a Strategaeth
- Pwyllgor Staffio a Datblygiad Proffesiynol
- Pwyllgor Diswyddo
- Pwyllgor Taliadau
- Pwyllgor Enwebiadau
- Pwyllgor Enwebu Cymrodyr
- Pwyllgor Siarter

Bydd agenda'r pwyllgorau hynny sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor a'r Senedd, yn ogystal â phob rhybudd cyfarfod, yn ddwyieithog.

Adolygir y drefn yn flynyddol mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Is-Ganghellor .

4.4.3 Y drefn arferol fydd cyflwyno adroddiadau i'r Llys yn Gymraeg a Saesneg.

4.4.4 Mae trefn ar gyfer diffinio pa bapurau neu gynigion a gaiff eu cynhyrchu yn ddwyieithog ar gyfer y Cyngor, y Senedd a phwyllgorau, ac ymdrechir i gynyddu'r ddarpariaeth. Rhoddir y flaenoriaeth, o ran cynhyrchu dogfennau dwyieithog, i'r rhai sy'n debygol o gael eu hystyried gan gyrrff ac adrannau lle bydd nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg. Bydd dogfennau a gyhoeddir a sydd ar gael i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd yn gyffredinol hefyd yn cael eu

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor, y Senedd a'u pwyllgorau.

- 4.4.5 Bydd hawl gan unrhyw bwyllgor neu gorff mewnol baratoi ei gofnodion neu ddogfennau mewn ffurf ddwyieithog. Fodd bynnag, mae gallu'r Uned Gyfieithu i gefnogi'r gwaith hwn yn ddibynnol ar adnoddau, a phan yn briodol, blaenoriaethir y pwyllgorau neu gyrff mewnol sydd â'r mwyafrif o'u haelodau'n siaradwyr Cymraeg.
- 4.4.6 Mae gan aelodau pob awdurdod neu bwyllgor neu Athrofa yr hawl i annerch cyfarfod yn Gymraeg neu Saesneg, ac fe wneir hynny yn hysbys iddynt. Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd y Llys, y Cyngor a'r Senedd, ac mewn cyrff a phwyllgorau mewnol eraill sydd wedi argymhell hynny ar y sail fod galw rhesymol am wasanaeth cyfieithu.
- 4.4.7 Gall pwyllgorau o fewn adrannau hefyd wneud cais am wasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen.
- 4.4.8 Mewn pwyllgorau lle nad oes gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael, gellir gwneud trefniadau eraill anffurfiol ar gyfer cyfieithu, e.e. y cadeirydd yn cyfieithu neu'n sicrhau bod aelod arall o'r pwyllgor yn cyfieithu neu grynhoi.

## **4.5 Y Rhyngrwyd**

- 4.5.1 Bydd holl dudalennau corfforaethol y Brifysgol ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.5.2 Bydd blaendalen y Brifysgol ([www.aber.ac.uk](http://www.aber.ac.uk)) yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr (y Gymraeg yn gyntaf neu'n uchaf), gan roi'r dewis i ddefnyddwyr ym mha iaith y dymunant ddarllen y tudalennau dilynol.<sup>4</sup>
- 4.5.3 Bydd tudalennau'r gwasanaethau canolog ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.5.4 Bydd tudalennau cartref yr holl adrannau academiaidd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.5.5 Yn achos y rhan fwyaf o'r adrannau academiaidd sy'n rhan o strategaeth addysg Gymraeg y Brifysgol, neu adrannau lle mae nifer sylweddol o'r staff a'r myfyrwyr yn medru'r Gymraeg, bydd tudalennau eraill yn Gymraeg a

---

<sup>4</sup> I wybod mwy am flaenoriaethau ac amserlen gyfieithu gwefannau adrannol gw. 'Cynllun Gweithredu Gwefannau Dwyieithog Prifysgol Aberystwyth'. Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.



Saesneg, ac eithrio unrhyw dudalennau y bernir nad oes angen i'w cynnwys gael eu cyfieithu i'r Gymraeg, e.e. tudalennau sy'n amlinellu gwaith gan grŵp ymchwil adrannol a gynhelir drwy gyfrwng y Saesneg. Penderfynir ar hyn mewn ymgynghoriad â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

- 4.5.6 Yn achos adrannau eraill lle y buddsoddir yn y ddarpariaeth academaidd drwy'r Gymraeg bydd tudalennau penodol, yn ychwanegol at y flaenddal, yn cael eu paratoi drwy'r Gymraeg yn unig ar gyfer staff a myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg. Bydd y tudalennau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i roi gwybod i ddarpar fyfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol am ddarpariaeth Gymraeg yr adran, a bydd cyswllt amlwg i'r tudalennau hyn o flaenddal gwefan yr adran. Bydd y Brifysgol yn crynhoi ei darpariaeth cyfrwng Gymraeg ar wefan Cangen y Brifysgol o'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol.
- 4.5.7 Bydd gan bob canolfan ymchwil dudalen cartref Gymraeg a Saesneg. Mater i'r ganolfan fydd penderfynu a yw hi'n briodol i'r tudalennau eraill fod yn ddwyieithog. Yn achos canolfannau sy'n dymuno cyfieithu eu gwefannau yn llawn, bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn trafod â hwy yr anghenion cyfieithu ac yn penderfynu ar sail galw a blaenoriaeth.
- 4.5.8 Bydd blaenddal gwefannau sy'n ymwneud â chynadleddau a digwyddiadau penodol, neu wybodaeth arall a roddir ar y wefan am gyfnod penodol, yn ddwyieithog. Mater i gydlynwyr y trefniadau fydd penderfynu, drwy ymgynghori â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, a yw hi'n briodol cynnwys y tudalennau dilynol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwneir y penderfyniad yn unol â chymal 4.3 ac ar sail lleoliad y digwyddiad, y pwnc dan sylw a phwy sy'n debygol o fod yn bresennol.
- 4.5.9 Bydd y tudalennau Gymraeg a Saesneg yn gydradd o ran eu diwyg, eu hansawdd a'u cywirdeb, a byddant yr un mor gyfredol â'i gilydd.
- 4.5.10 Bydd Tîm y We mewn ymgynghoriad â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn paratoi canllawiau ar gyfer creu a chynnal gwefannau dwyieithog.
- 4.5.11 Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i gydymffurfio â'r safonau a amlinellir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn y ddogfen 'Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg'.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

## **Y we fel cyfrwng dysgu ac addysgu**

4.5.12 Pan ddefnyddir adnoddau ar-lein, megis Blackboard, i gefnogi cyfryngau dysgu ac addysgu, bydd y nodiadau neu'r deunyddiau yn cael eu gosod ar y we yn yr iaith y dysgir y modiwl neu'r cwrs.

4.5.13 Ar gronfa ddata ganolog y Brifysgol, sydd i'w gweld ar y wefan, bydd manylion y modiwlau a ddysgir drwy'r Gymraeg ar gael yn Gymraeg yn unig, a bydd manylion y modiwlau a ddysgir drwy'r Saesneg ar gael yn Saesneg yn unig (bydd hyn yn cynnwys teitl y modiwl, disgrifiad o'r modiwl, dulliau dysgu, nodau ac amcanion ayb). Yn achos modiwlau a ddysgir yn ddwyieithog, nodir y manylion yn y ddwy iaith.

## **4.6 Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad**

4.6.1 Bydd hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd enw'r Brifysgol yn ymddangos yn ddwyieithog ym mha le bynnag y'i dangosir, e.e.:

- arwyddion
- cerbydau
- adeiladau
- logo
- mewn arddangosfeydd
- hysbysebion
- cyhoeddiadau printiedig
- penawdau
- llythyron
- cardiau cyfarch
- bathodynau adnabod
- ffurfiau electronig

Ym mhob achos bydd y Gymraeg yn dod yn uchaf neu'n gyntaf.

4.6.2 Defnyddir ffurfiau Cymraeg a Saesneg ar enwau swyddogol athrofeydd, adrannau, canolfannau neu adeiladau. Caniateir ar yr un pryd fod rhai adeiladau, gan gynnwys canolfannau gweithgaredd a neuaddau preswyl ag iddynt enwau penodol Cymraeg na fydd angen eu cyfieithu.

4.6.3 Bydd unrhyw ddeunydd a gynhyrchir neu a arddangosir gan y Brifysgol at ddibenion marchnata a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

## **4.7 Arwyddion gwybodaeth**

4.7.1 Bydd pob arwydd ar dir ac eiddo'r Brifysgol yn ddwyieithog, a bydd y Gymraeg yn dod yn uchaf neu'n gyntaf.

4.7.2 Bydd yr arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd swyddogol yn ddwyieithog.

4.7.3 Bydd unrhyw arwyddion eraill, e.e. arwyddion priffyrdd neu arwyddion gwybodaeth gyhoeddus, yn ddwyieithog.

4.7.4 Dwyieithog hefyd fydd unrhyw arwyddion a leolir mewn unrhyw fan arall yng Nghymru y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdanynt.

4.7.5 Pan fydd cyrff eraill, gan gynnwys contractwyr, yn cael caniatâd i osod arwyddion ar dir ac eiddo'r Brifysgol, un o amodau'r caniatâd fydd sicrhau bod yr arwyddion hynny'n ddwyieithog. Cyfrifoldeb y cyrff perthnasol fydd cyfieithu'r arwyddion ond gall Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg gynghori ar hyn.

4.7.6 Ym mhob achos bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, safon eglurder ac amlygrwydd.

## **4.8 Deunydd a gyhoeddir gan y Brifysgol**

4.8.1 Bydd pob cyhoeddiad a deunydd printiedig sydd wedi'i gyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru (staff / myfyrwyr / darpar fyfyrwyr / y cyhoedd cyffredinol) yn ddwyieithog. Gall rhain gynnwys y canlynol:

- Posteri
- Sieciau
- Bwydlenni
- Derbynebau
- Anfonebau
- Mapiau
- Llyfrynnau a thafllenni gwybodaeth
- Rheolau a chyfarwyddiadau
- Gwahoddiadau
- Cardiau aelodaeth
- Deunydd newyddion a hysbysrwydd

4.8.2 Y drefn fel arfer fydd cynhyrchu fersiynau dwyieithog o fewn yr un ddogfen.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

- 4.8.3 Mewn achosion prin lle bydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd, ac yn cael eu cyflwyno yn yr un diwyg ac ansawdd. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cyfeirio'n ddwyieithog at fodolaeth y naill fersiwn a'r llall. Os codir tâl, bydd y fersiwn dwyieithog a'r fersiwn uniaith yr un pris.
- 4.8.4 Mae Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol yn ddwyieithog, ac y mae i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gydraddoldeb o ran eu dilysrwydd. Mae'r Ordinhadau a'r Rheoliadau a lunnir o dan delerau'r Siarter a'r Ystatudau hefyd yn ddwyieithog.
- 4.8.5 Bydd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Blynyddol a gyflwynir i'r Cyngor a'r Llys yn gwbl ddwyieithog.
- 4.8.6 Bwriad y Brifysgol yw cynhyrchu Prosbectws Cymraeg a Saesneg. Bydd y cyhoeddiad Cymraeg o naws a natur wahanol i'r cyhoeddiad Saesneg ac wedi ei anelu at fyfyrwyr sy'n dymuno derbyn gwybodaeth am y Brifysgol yn Gymraeg, yn ogystal â myfyrwyr sydd â diddordeb i astudio y cyfan neu elfen o'u cyrsiau drwy'r Gymraeg. Bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y Brifysgol fel y gwna'r Prosbectws Saesneg. Bydd y fersiwn Saesneg yn cynnwys gwybodaeth yn Saesneg am gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, natur ieithyddol y Brifysgol a'i Chynllun Iaith Gymraeg.

#### **4.9 Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiol**

4.9.1 Bydd unrhyw ffurflenni a gynhyrchir gan y Brifysgol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, ynghyd ag unrhyw ddeunydd esboniadol perthynol, yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni a gwybodaeth i staff, myfyrwyr a darpar-fyfyrwyr, ac i ymgeiswyr am swyddi yn y Brifysgol, ynghyd â gwybodaeth am swyddi a hysbysebair.

4.9.2 Y drefn arferol fydd cynhyrchu fersiynau dwyieithog.

4.9.3 Mewn achosion lle bydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd a'r un mor rhwydd i'w cael. Cânt eu dosbarthu yr un pryd a byddant yn cynnwys nodyn sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael hefyd yn yr iaith arall.

#### **4.10 Hysbysiadau i'r wasg**

4.10.1 Bydd unrhyw hysbysiadau neu ddatganiadau a ryddheir i'r wasg neu ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru yn enw'r Brifysgol yn ddwyieithog.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

4.10.2 Bydd unrhyw gysylltiad pellach â'r wasg neu'r cyfryngau yng Nghymru yn Gymraeg neu Saesneg, yn dibynnu ar iaith y gohebydd a/neu'r papur newydd, cylchgrawn neu raglen. Trefnir bod aelod dwyieithog o staff ar gael i ddelio â'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg.

#### **4.11 Deunydd cyhoeddusrwydd, hysbysebu a marchnata**

4.11.1 Bydd deunydd cyhoeddusrwydd a gynhrychir gan y Brifysgol ar gyfer ymgyrchoedd hysbysebu a marchnata yng Nghymru yn ddwyieithog, neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Gall hyn gynnwys:

- Prosbectws
- Pamffledi
- Llyfrynau
- Taflenni
- Deunyddiau arddangos ar gyfer arddangosfeydd a ffeiriau gyrfaoedd
- Negeseuon electronig
- Disgiau DVD

Pan gyhoeddir fersiynau ar wahân, cynhwysir cyfeiriad i'r perwyl fod fersiwn yn yr iaith arall ar gael. Pan gynhrychir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant ar gael i'w dosbarthu yng Nghymru yr un pryd â'i gilydd.

4.11.2 Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o unrhyw fideo a gynhrychir gan y Brifysgol, er na fydd y ddau fersiwn o angenrheidrwydd yn union yr un fath.

4.11.3 Wrth hysbysebu ar radio a theledu, bydd iaith yr hysbyseb yn cyfateb i iaith y sianel. Hysbysebir ar y cyfryngau Cymraeg a Saesneg.

4.11.4 Pan fydd rhywun yn cysylltu â'r Brifysgol am wybodaeth bellach yn deillio o ymgyrch hysbysebu neu gyhoeddusrwydd, bydd y Brifysgol yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddir gan yr unigolyn hwnnw, ac yn anfon yr wybodaeth bellach yn yr iaith honno neu'n ddwyieithog.

4.11.5 Yn achos deunydd dwyieithog, bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg, neu, lle bo'r testun yn gyfochrog ar yr un dudalen, bydd y fersiwn Cymraeg ar y chwith. Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ar dudalennau dilynol, bydd y Gymraeg ar y dde. Byddant yn cael yr un amlygrwydd o ran arddull a chyflwyniad.

4.11.6 Pan fo adrannau academiaidd yn darparu modiwlau/cyrsiau a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, gall yr hysbysiadu sy'n ymwneud â'r cyfryw fodiwlau/gyrsiau a'r deunydd marchnata fod yn Gymraeg yn unig.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

4.11.7 Pan fo adrannau academiaidd yn hysbysebu modiwlau/cyrsiau a ddysgir drwy'r Saesneg, bydd yr hysbysiadau sy'n ymwneud â'r cyfryw fodiwlau/gyrsiau a'r deunydd marchnata yn ddwyieithog, ond bydd teitlau modiwlau neu gyrsiau yn aros yn yr iaith y'u dysgir.

4.11.8 Bydd unrhyw arolygon cyhoeddus yng Nghymru a wneir ar ran y Brifysgol fel corff ac sy'n gysylltiedig â hi yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Bydd iaith unrhyw arolygon y bydd adrannau academiaidd unigol yn eu gwneud ar ran cyrff eraill neu'n rhan o'u gwaith ymchwil academiaidd yn unol â chyfarwyddiadau'r noddwyr.

## **4.12 Hysbysiadau**

4.12.1 Bydd hysbysiadau gwybodaeth a osodir yn enw'r Brifysgol o fewn i'w thir a'i heiddo yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hyn yn golygu hysbysiadau cyffredinol gan y weinyddiaeth a'r gwasanaethau canolog a'r adrannau academiaidd sydd i'w harddangos am gyfnod o dair wythnos neu fwy. Gall hysbysiad dros dro sy'n ymwneud â modiwl unigol fod yn yr iaith y dysgir y modiwl hwnnw yn unig. Os yw'n fodiwl cyfrwng Saesneg ac iddo elfen cyfrwng Cymraeg (e.e. seminarau ar gael drwy'r Gymraeg) bydd angen i'r hysbysiad fod yn ddwyieithog. Bydd rhai eithriadau pan na fydd angen darparu hysbysiad dros dro yn ddwyieithog, e.e. hysbysiadau ar gyfer myfyrwyr tramor yn ystod y cyrsiau iaith a drefnir gan y Ganolfan Iaith a Dysgu.

4.12.2 Gweithredir ar sail yr egwyddor y gosodir y ffurf Gymraeg a'r Saesneg yr un pryd yn achos unrhyw hysbysiad sydd i fod yn ddwyieithog.

4.12.3 Ni fydd disgwyl i'r Brifysgol drefnu cyfieithiad o ddeunyddiau a dderbynnir o ffynonellau allanol, ond lle bo'r deunyddiau hynny ar gael yn ddwyieithog fe arddangosir y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar sail gyfartal.

4.12.4 Lle bo iaith hefyd yn bwnc academiaidd, gall yr athrofa neu'r adran berthnasol gynhyrchu ac arddangos hysbysiadau yn ymwneud â modiwlau yn yr iaith honno'n unig.

## **4.13 Hysbysebion yn y wasg**

4.13.1 Bydd hysbysebion unrhyw swyddi yn y Brifysgol yn dangos enw'r sefydliad ar ffurf ddwyieithog briodol.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

- 4.13.2 Bydd hysbysebion swyddi a gyhoeddir yn y wasg yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 4.13.3 Bydd hysbysebion swyddi a gyhoeddir ar wefan Adnoddau Dynol y Brifysgol yn ddwyieithog.
- 4.13.4 Bydd unrhyw hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog pa un ai ydynt yn ymddangos yng Nghymru neu fan arall.
- 4.13.5 Mewn hysbysebion dwyieithog bydd y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, ac ar y chwith iddi.
- 4.13.6 Gall unrhyw hysbysebion am swyddi sy'n ymddangos yn y wasg Gymraeg fod yn Gymraeg yn unig.
- 4.13.7 Gall hysbysebion sy'n ymddangos mewn cyhoeddiadau rhyngwladol, pwnc benodol fod yn Saesneg yn unig.
- 4.13.8 Bydd y polisi ynghylch cyfieithu manylion pellach ar gyfer swyddi yn gydnaws â Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol. Bydd pob hysbyseb yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg a bydd manylion pellach y swyddi sy'n gofyn am sgiliau penodol yn y Gymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg hefyd. Rhagwelir y bydd yr ymrwymiad hwn yn tyfu wrth i nifer y swyddi sydd â gofynion dwyieithog iddynt gynyddu gyda datblygiad y Strategaeth..
- 4.13.9 Bydd hysbysebion a gyhoeddir yn y wasg Saesneg yng Nghymru sy'n ymwneud â materion swyddogol neu gyfansoddiadol, neu'n hysbysebu adnoddau a gwasanaethau'r sefydliad yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uchaf neu'n gyntaf. Cymraeg fydd iaith yr hysbysebion hynny yn y wasg Gymraeg.

#### **4.14 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog**

- 4.14.1 Polisi'r Brifysgol yw sicrhau bod gan y gweithleoedd sydd â chyswllt cyson â'r cyhoedd ddigon o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau priodol er mwyn eu galluogi i gyfathrebu a chynnig gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

- 4.14.2 Mae pob aelod presennol o staff wedi derbyn holiadur i'w lenwi (gweler Atodiad A) yn gofyn iddynt raddio eu sgiliau ieithyddol fesul sgil ac fesul lefel. Gofynnir i aelodau newydd o staff lenwi'r holiadur hwn a'i ddychwelyd gyda'u cytundeb penodi i Adnoddau Dynol. Mae'r holiadur hwn yn galluogi'r Brifysgol i gynnal asesiad parhaus o sgiliau ieithyddol staff, ac o ganlyniad mae proffil ieithyddol pob adran yn cael ei ddiweddarau'n barhaus.
- 4.14.3 Un o'r ystyriaethau wrth bennu gofynion ieithyddol unrhyw swydd fydd yr angen am ddiogelu neu ddatblygu proffil ieithyddol yr adran neu swyddfa neu ganolfan o dan sylw, gan gymryd i ystyriaeth y sgiliau ieithyddol sydd ar gael ynddi yn gyffredinol, ynghyd ag unrhyw newidiadau y gellir eu rhagweld yn y tymor byr.
- 4.14.4 Dynodir y swyddi hynny y mae gwybodaeth o'r Gymraeg hyd at lefel benodol yn hanfodol ar eu cyfer, a'r rheiny y mae gwybodaeth hyd at lefel benodol yn gymhwyster pwysig ar eu cyfer, er mwyn darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar sail y polisi hwn, pennir gofynion ieithyddol swyddi mewn adrannau mewn modd sy'n cydlynu â chynlluniau a strategaeth pob adran.
- 4.14.5 Adroddir ar yr arolygon o anghenion a galluoedd ieithyddol staff i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg, y Senedd a'r Cyngor, a hefyd i Gangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn achos swyddi yn yr adrannau a'r gwasanaethau academaidd. Un o swyddogaethau penodol Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg fydd monitro'r strategaeth staffio a phroffil ieithyddol swyddi.
- 4.14.6 Ar gyfer pob penodiad, y cymhwysedd ar gyfer y swydd yw'r prif faen prawf. Mewn rhai swyddi bydd hynny'n cynnwys medru'r iaith Gymraeg neu barodrwydd i ddysgu.
- 4.14.7 Bydd sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol hyd at lefel benodol ar gyfer rhai swyddi academaidd. Ar gyfer swyddi academaidd eraill, pan yw popeth arall yn gyfartal, bydd y Brifysgol yn ystyried y Gymraeg fel cymhwyster ychwanegol.
- 4.14.8 Bydd gan unrhyw ymgeisydd a gyfwelir am swydd lle mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol neu beidio, yr hawl i gael cyfweiliad yn y Gymraeg. Bydd disgwyl iddynt hefyd ddangos eu gallu ieithyddol yn Saesneg fel rhan o'r cyfweiliad Cymraeg. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am yr hawl hon o flaen llaw.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.



4.14.9 Bydd y penodiadau academaidd a gweinyddol (gan gynnwys swyddi academaidd berthynol), ysgrifenyddol a chlerigol newydd yn dilyn canllawiau manwl sydd yn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol. (Gweler Atodiad A). Bydd Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn perchenogi'r Strategaeth hon ac yn ystyried ei gofynion wrth gymeradwyo swyddi newydd.

#### **4.15 Gofynion ieithyddol swyddi .**

4.15.1 Bydd y Brifysgol yn asesu pob swydd sy'n gofyn am gymhwyster dwyieithog yn ôl lefel y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ei angen ar gyfer cyflawni ei gofynion. Mae'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn cynnwys y categorïau a'r lefelau gwahanol a bennir i bob swydd.

4.15.2 Ymrwymir i weithredu'r Strategaeth hon drwy Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg, a bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn arolygu'r modd y caiff ei gweithredu gan Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwyr Athrofeydd, Penaethiaid Adrannau, rheolwyr ac eraill sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi ac arolygu staff.

4.15.3 Bydd yr wybodaeth a anfonir at ddarpar ymgeiswyr am swyddi yn cynnwys datganiad ynghylch polisi iaith y Brifysgol a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu, astudio a chyfathrebu, ynghyd â phatrwm ieithyddol a diwylliannol yr ardal a'r gymdeithas leol. Bydd gwybodaeth hefyd am y lefelau ieithyddol a fydd wedi'u cytuno gan y Brifysgol ar gyfer swyddi penodol.

4.15.4 Rhoddir sylw, mewn deunydd ysgrifenedig a sesiynau cyflwyno ar gyfer aelodau o'r staff gan gynnwys aelodau newydd, i bolisïau a chanllawiau a fabwysiadwyd er hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn y Brifysgol.

#### **4.16 Hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg**

4.16.1 Er mwyn gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn llawn bydd y Brifysgol yn mabwysiadu polisi cyflawn o hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.16.2 Bydd y Brifysgol yn cynnig anogaeth a chymorth ymarferol i aelodau'r staff sy'n dymuno mynychu cyrsiau i ddysgu Cymraeg neu i loywi eu Cymraeg. Bydd y Brifysgol yn llunio canllawiau ar gyfer talu neu ad-dalu ffioedd am ymaelodi â dosbarthiadau Cymraeg. Nod y Brifysgol fydd gwneud aelodau

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

staff yn fwy hyderus o'u gallu i gyfathrebu'n ysgrifenedig ac/neu ar lafar, yn Gymraeg.

- 4.16.3 Os penodir unrhyw un nad yw'n medru'r Gymraeg i'r lefel angenrheidiol, yn ôl diffiniad o ofynion ieithyddol y swydd, bydd gwneud dysgu'r iaith neu loywi'r iaith i'r safon angenrheidiol, a hynny o fewn cyfnod penodedig, yn amod cyflogaeth, a nodir hynny yng nghytundeb gwaith y sawl a benodir. Bydd y Brifysgol yn rhoi cefnogaeth ymarferol lawn i'r unigolyn, drwy gymryd yr amgylchiadau hyn i ystyriaeth wrth bennu ei raglen waith, a thrwy ganiatáu amser rhesymol iddo fynychu dosbarthiadau Gymraeg yn ystod oriau gwaith. Sefydliar trefn ar gyfer monitro cynnydd yr unigolyn ac o benderfynu a yw wedi cyflawni'r amodau a osodwyd o fewn yr amser penodedig.
- 4.16.4 Bydd y Brifysgol yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol yn y Gymraeg yn flynyddol.
- 4.16.5 Yn achos unrhyw gyrsiau galwedigaethol eraill, ystyrir yn gyntaf a ddylid ac a ellid eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw hynny'n ymarferol, ceisir sicrhau bod grwpiau trafod Gymraeg ar gael fel rhan o raglen y cwrs.
- 4.16.6 Bydd staff academiaidd sy'n medru'r Gymraeg yn cael eu hannog i fynychu gweithdai datblygu staff cyfrwng Gymraeg a drefnir gan y Coleg Gymraeg Cenedlaethol ac sydd wedi'u cymeradwyo fel rhan o'r Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch. Bydd yn angenrheidiol i ddeiliaid yr Ysgoloriaethau Ymchwil fynychu'r gweithdai hyn, ynghyd â staff eraill a benodir i ddysgu drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol. Rhoddir pob cyfle i staff eraill eu mynychu hefyd. Bydd y Brifysgol, drwy Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd, yn hyrwyddo bodolaeth y gweithdai hyn ymhlith staff y Brifysgol.

#### **4.17 Trefniadau gweinyddol ar gyfer hyrwyddo'r Cynllun**

##### **Rhaglen weithredu**

- 4.17.1 Bydd rhaglen benodol ar gyfer gweithredu polisiâu'r Cynllun, a fydd yn nodi'r targedau a'r amserlen ar gyfer pob adran, swyddfa a chanolfan.

##### **Cyfrifoldebau**

- 4.17.2 Y Cyngor drwy Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg a fydd â'r cyfrifoldeb am hyrwyddo a gweinyddu agweddau gweinyddol y Cynllun. Y Senedd drwy'r

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Bwrdd Academaidd a Changen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg a fydd yn gyfrifol am yr agweddau academaidd.

4.17.3 Bydd Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn gweithredu ar ran y pwyllgorau perthnasol. Byddant hefyd yn gweithredu i sicrhau bod y Cynllun Iaith yn cael ei weithredu drwy'r Brifysgol. Byddant yn creu ymwybyddiaeth ymhlith yr holl athrofeydd, adrannau, canolfannau a swyddfeydd ac aelodau'r Brifysgol ynglŷn â sut mae gweithredu'r Cynllun a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Gwneir hyn drwy lyfrynau cymorth a chyfarwyddiadau eraill, drwy ymgynghori â staff, penaeithiaid a rheolwyr, a thrwy gynnal gweithdai.

4.17.4 Bydd gan bob Cyfarwyddwr Athrofa neu Bennaeth Adran gyfrifoldeb dros weithredu'r Cynllun yn ei adran ef/hi. Gofynnir am adroddiad blynyddol gan Benaethiaid ar ffurf holiadur a fydd yn dangos sut y mae'r adran wedi gweithredu gofynion y Cynllun yn ystod y flwyddyn. Bydd yr adroddiadau'n cael eu cyflwyno i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg, a byddant yn sail i adroddiad monitro blynyddol a gyflwynir i Gomisiynydd y Gymraeg.

4.17.5 Cadarnheir bod yr ymrwymadau a'r trefniadau a nodir yn y Cynllun hwn wedi eu hawdurdodi gan y Cyngor, sef y corff llywodraethol, a byddant yn dwyn awdurdod llawn y Brifysgol wrth eu gweithredu.

## **Cefnogaeth**

4.17.6 Bydd canllawiau manylach ar sut i weithredu gofynion y Cynllun yn cael eu cyflwyno i'r staff perthnasol a byddant ar gael ar ffurf llyfryn ac ar wefan y Brifysgol.

4.17.7 Darperir gwasanaeth cyfieithu gan yr Uned Gyfieithu, sy'n rhan o Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, i'r holl adrannau academaidd ac i'r canolfannau a'r swyddfeydd gweinyddol. Amcan canolog y gwasanaeth yw hyrwyddo gweithredu Cynllun a pholisi'r Brifysgol ar ddefnyddio'r Gymraeg a chynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu ac addysgu.

4.17.8 Gwneir gwasanaethau'r Uned Gyfieithu yn hysbys i'r Athrofeydd, Adrannau, canolfannau a'r swyddfeydd gweinyddol, gan nodi'r targedau ar gyfer cyflawni cyfieithiadau. Bydd y Brifysgol yn paratoi polisi ar gyfieithu a fydd yn amlinellu'r disgwyliadau a'r blaenoriaethau.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

4.17.9 Bydd trefn ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth a gynigir gan yr Uned Gyfieithu, gan gynnwys unrhyw waith a wneir gan gyfieithwyr ac asiantaethau allanol ar gontract, yn cyrraedd y safon uchaf. Bydd canllawiau hefyd ar gyfer cyfieithu gwaith academaidd o'r Gymraeg i'r Saesneg i'r diben o'i arholi a'i asesu.

4.17.10 Bydd yr Uned Gyfieithu yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw gyfarfodydd lle bydd angen gwasanaeth o'r fath. I'r perwyl hwnnw bydd y Brifysgol, drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth, yn darparu ac yn cynnal cyfarpar cyfieithu i'w ddefnyddio yn y prif ganolfannau cynadledda a phwyllgora, neu mewn mannau eraill yn ôl y galw.

#### **4.18 Cytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â thrydydd parti ac sy'n gysylltiedig â chynnig gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru**

##### **Partneriaethau**

4.18.1 Mae Prifysgol Aberystwyth yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Brifysgol yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

- Pan fydd y Brifysgol yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith.
- Pan fydd y Brifysgol yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei arwain, bydd cyfraniad y Brifysgol i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd PA yn annog y lleill i gydymffurfio.
- Pan fydd y Brifysgol yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia, bydd hefyd yn gweithredu'n unol â'i Chynllun Iaith.
- Pan fydd y Brifysgol yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisiâu iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu'n ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth bydd PA yn cynnig cyngor a chymorth i'r lleill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

## **Cytundebau**

- 4.18.2 Pan fydd unrhyw wasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael ei roi trwy gontract i asiantaeth neu gontractwr y tu allan i'r Brifysgol ei hun, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr asiantaeth, y contractwr neu unrhyw is-gontractwr yn gweithredu'n gyson â'r elfennau perthnasol yn y Cynllun Iaith.
- 4.18.3 Bydd dogfennau tendro, manylebau, dogfennau contract a chytundebau yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer darparu gwasanaeth yn unol â'r Cynllun a lle bo hynny'n briodol, gellir gofyn am ddatganiadau o sut y cyflwynir y gwasanaethau hynny.
- 4.18.4 Mewn achosion lle bydd trydydd parti yn darparu gwasanaeth i fyfyrwyr sy'n dilyn eu cwrs/cyrsiau drwy'r Gymraeg byddir yn sicrhau y bydd yn gyson â'r Cynllun Iaith.

### **4.19 Arolygu Gweithredu'r Cynllun**

- 4.19.1 Y Cyngor, drwy Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg, fydd yn gyfrifol am weinyddu a hyrwyddo agweddau gweinyddol y Cynllun Iaith. Y Senedd, drwy'r Bwrdd Academaidd a Changen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg, fydd yn gyfrifol am weinyddu a hyrwyddo'r agweddau academaidd. Bydd y Gangen yn adolygu'r ddarpariaeth academaidd gan adrodd ar hynny i'r Pwyllgor Asesu Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd.
- 4.19.2 Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a Swyddog Datblygu'r Gymraeg a fydd yn gyfrifol am arolygu a gweithredu'r Cynllun a chyflwyno adroddiadau i'r pwyllgorau a nodir yn 4.19.1 uchod. Mae'r Rheolwr yn adrodd i'r Dirprwy Is-Ganghellor ac yna i'r Is-Ganghellor.
- 4.19.3 Bydd gan Gyfarwyddwr pob Athrofa, Adran a chanolfan gyfrifoldeb dros weithrediad y Cynllun yn ei athrofa/hathrofa, adran neu ganolfan. Sefydliar trefn o gynyddu ymwybyddiaeth yr unigolion hynny ac aelodau staff sy'n ymwneud â phenderfyniadau rheolaethol, o ofynion y Cynllun, gan hyrwyddo trefn ymarfer da ar draws y Brifysgol.
- 4.19.4 Bydd Athrofeydd, Adrannau Academaidd a chanolfannau gwasanaeth yn clustnodi aelod o'u staff i fod yn gysylltydd ar faterion yn ymwneud â datblygu dwyieithrwydd ac ymwybyddiaeth ieithyddol. Sefydliar trefn ar gyfer cydgysylltu rhyngddynt a Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg a Phwyllgor Strategaeth y Gymraeg.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

4.19.5 Sefydli'r trefn arolygu gan Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg a Changen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg a fydd yn gosod canllawiau ar gyfer monitro'r ddarpariaeth yn erbyn y targedau a bennwyd, ac unrhyw gamau sydd angen eu dilyn o ganlyniad i'r arolwg. Nod y drefn arolygu fydd i) sicrhau y gweithredir y Cynllun mewn modd cynhwysfawr a chyson ar draws y sefydliad; ii) tynnu sylw at unrhyw anawsterau ymarferol ynglŷn â gweithredu'r Cynllun yn ei holl agweddau a iii) lledaenu perchenogaeth y Cynllun a'r ymdeimlad o gyfrifoldeb dros ei weithredu'n effeithiol.

4.19.6 Bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn ymdrin ag unrhyw anfodlonrwydd ynglŷn â'r Cynllun, neu gwynion ynghylch gweithrediad y Cynllun ac yn derbyn awgrymiadau adeiladol ar sut i wella'r gwasanaeth dwyieithog a hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd y Ganolfan yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg ar y cyfryw faterion o leiaf unwaith bob blwyddyn.

4.19.7 Cyflwynir adroddiad ar agweddau gweinyddol y Cynllun i'r Pwyllgor Strategaeth, y Senedd a'r Cyngor yn flynyddol, adroddiad a fydd yn cymharu'r cynnydd a wnaed â'r nodau a bennwyd. Cyflwynir adroddiad ar agweddau addysg a hyfforddiant y Cynllun yn flynyddol i Gangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg a'r Bwrdd Academaidd.

4.19.8 Adolygir yn rheolaidd gyflawniad yr Uned Gyfieithu a'i hadnoddau i sicrhau ei bod yn ymdopi'n foddhaol â gofynion y Cynllun. Bydd yr arolwg yn cynnwys mesur ansawdd y gwasanaeth yn erbyn targedau penodedig sy'n ymwneud â phrydlondeb cyflawni cyfieithiadau, ynghyd â safonau'r cyfieithiadau a chyhoeddiadau a dogfennau dwyieithog. Adroddir ar hyn i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg .

4.19.9 Paratoir adroddiad cydymffurfio blynyddol a fydd yn galluogi'r Brifysgol i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor lwyddiannus y mae wrth wneud hynny?

Wrth wneud hyn, bydd yr adroddiad yn ymdrin â:

- Gwasanaeth Cymraeg y Brifysgol yn weinyddol ac academaidd
- Sgiliau ieithyddol gweithlu'r Brifysgol a'i gallu i weithredu gofynion y Cynllun
- Y canllawiau a sefydlwyd i weithredu gofynion y Cynllun

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Os bydd yr adroddiad yn canfod gwendidau, bydd y Brifysgol yn paratoi cynllun gweithredu a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw wendid a ganfuwyd.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i Gyngor y Brifysgol a bydd copi ohono yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg.

Bob tair blynedd bydd y Brifysgol yn:

- i) cynnal gwerthusiad o'i pherfformiad wrth weithredu'r Cynllun yn ystod y tair blynedd a fu
- ii) adolygu a diweddarau ei Chynllun Iaith.

Bydd y Brifysgol yn crynhoi casgliadau ei gwerthusiad mewn adroddiad a fydd yn:

- i) rhoi arolwg a dadansoddiad thematig o'r ddarpariaeth a'r cynnydd a wnaed o safbwynt cydymffurfio â'r Cynllun dros y tair blynedd
- ii) amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd ddilynol sy'n deillio o'r gwerthusiad, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu mesurau'r Cynllun.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd y Brifysgol yn cynnal arolwg o fodlonrwydd siaradwyr Cymraeg am safon y gwasanaethau a ddarperir drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog.

## **4.20 Cyhoeddusrwydd**

4.20.1 Bydd y Brifysgol yn hysbysu myfyrwyr, darpar fyfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd o:

- i) fodolaeth y Cynllun Iaith Gymraeg
- ii) natur ddwyieithog y Brifysgol
- iii) y cyfleoedd a geir i astudio cyrsiau drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog
- iv) cyfleoedd addysgol eraill a'r gwasanaethau gweinyddol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Defnyddir dulliau amrywiol ar gyfer y cyhoeddusrwydd hwn, gan gynnwys cyhoeddiadau priodol, gwefan y Brifysgol, gan fanteisio hefyd ar gyfryngau gwybodaeth Comisiynydd y Gymraeg.

#### **4.21 Gwasanaethau Llety a Lles Myfyrwyr**

Caiff myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, ynghyd â'r rheiny sy'n dysgu'r Gymraeg, gyfle i fyw mewn llety Cymraeg penodedig sydd wedi'i neilltuo ar eu cyfer.

Darperir fel y gall myfyrwyr drafod materion lles ac iechyd yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis.

#### **4.22 Trefniadaeth a darpariaethau'r myfyrwyr**

Y mae Urdd Myfyrwyr Aberystwyth yn gweithredu polisi dwyieithrwydd, ac y mae ei gyfansoddiad yn darparu ar gyfer:

- Cynnal holl faterion ysgrifenedig yr Urdd yn ddwyieithog, gan roi blaenoriaeth i'r Gymraeg;
- Cyfieithu yn holl gyfarfodydd swyddogol yr Urdd, fel y gall aelodau siarad yn yr iaith a ddewisant.

Bydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, corff a gydnabyddir gan Urdd y Myfyrwyr Aberystwyth, yn cynnal gwasanaeth a gweithgaredd i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ystatud 21 mewn perthynas â Ffurfiad y Myfyrwyr, bydd y sefydliad yn sicrhau i gymaint graddau ac sy'n bosibl, fod Urdd y Myfyrwyr yn gweithredu bob amser yn unol ag ysbryd ac egwyddorion y Cynllun Iaith hwn.

Ystyr y cyhoedd yn y cyd-destun hwn yw staff amser-llawn a rhan-amser, myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, darpar fyfyrwyr, unigolion, grwpiau, sefydliadau yng Nghymru ac unrhyw un arall a ddaw i gysylltiad â'r Brifysgol a sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.



## **CYNLLUN IAITH GYMRAEG DIWYGIEDIG**

### **ATODIAD 1**

### **STRATEGAETH SGILIAU DWYIEITHOG**

## STRATEGAETH SGILIAU DWYIEITHOG

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae adran 6.2 Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth yn nodi'r trefniadau i staffio gwasanaethau'r Brifysgol yn unol â gofynion y Cynllun a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2003.<sup>5</sup> Golyga hyn bod y cymalau perthnasol yn y Cynllun wedi ymrwymo'r Brifysgol i ddarparu gwasanaeth o safon, rhwyddineb ac ehangder cyfartal yn Gymraeg a Saesneg.
- 1.2 Dechreuwyd ar y broses o baratoi'r Strategaeth hon pan ddosbarthwyd Holiadur Sgiliau Ieithyddol gan yr Adran Adnoddau Dynol i bob aelod o staff ym mis Ionawr 2007. Gofynnwyd i staff gadarnhau eu manylion personol ynghyd â'u swyddi a'r adrannau y perthynent iddynt yn y Brifysgol, gan nodi hefyd eu dewis iaith ar gyfer derbyn gohebiaeth. Gofynnwyd iddynt hefyd raddio eu gallu o 0 i 3 wrth i) ddeall Cymraeg, ii) siarad Cymraeg, iii) darllen Cymraeg ac iv) ysgrifennu Cymraeg. Addaswyd y graddfeydd hyn o fframwaith ALTE, sef fframwaith cydnabyddedig yr *Association of Language Testers in Europe*. Cydnabyddir y fframwaith hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg i Oedolion. Gofynnwyd i staff academiaidd nodi a ydynt yn medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cedwir yr wybodaeth yng nghofnodion personol staff a bydd yn cael ei diweddarau fesul unigolyn yn flynyddol.
- 1.3 Mae canfyddiadau'r Holiadur hwn wedi cynorthwyo Adnoddau Dynol wrth lunio proffil ieithyddol fesul adran, a bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol i weithredu'r Strategaeth. Cesglir yr wybodaeth ar gyfer staff newydd a benodir drwy anfon atynt yr Holiadur ynghyd â'u cytundeb cyflogaeth.
- 1.4 Mae'r Proffiliau Ieithyddol Adrannol yn dangos yn glir i Adnoddau Dynol ym mhle mae'r adnoddau staffio dwyieithog ym mhob adran ac i ba raddau y mae modd i'r staff hynny weithredu'n ddwyieithog. Dengys hyn hefyd y manau lle mae angen buddsoddi ymhellach mewn adnoddau dwyieithog a manau lle nad oes darpariaeth ddwyieithog ar gael ar hyn o bryd.
- 1.5 Cyn paratoi'r Strategaeth hon rhoddwyd ystyriaeth fanwl i faterion yn ymwneud â Pholisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol. Yn greiddiol i'r Strategaeth y mae'r amcan i sicrhau mynediad dilyffethair i wasanaethau Cymraeg a dwyieithog i staff, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r cyhoedd yng Nghymru, gan sicrhau bod y Brifysgol yn gynhwysol yn y modd y mae'n darparu ei gwasanaeth ac yn parchu dewis iaith yr unigolyn, boed hynny yn ddymuniad am wasanaeth Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog. Mae'r Strategaeth hefyd yn mynd i'r afael ag ystyriaethau'n ymwneud â gofal cwsmer, ac yn sicrhau bod y Brifysgol yn medru parhau i weithredu gofynion ei Chynllun Iaith Gymraeg a'r Safonau Iaith maes o law.

---

<sup>5</sup> Gw. yn benodol gymal 6.2(11): "Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser bod Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel, yn effeithlon ac effeithiol, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i brosesau cynllunio adnoddau dynol. Bydd y strategaeth hon yn galluogi Prifysgol Cymru Aberystwyth i arolygu'n barhaus ei hadnoddau a'i hanghenion ieithyddol, gan gydlyn hyfforddiant a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Rhan o'r strategaeth hon fydd y mesurau a ddisgrifir uchod yn adran 6.2."

- 1.6 Lluniwyd y Strategaeth hon mewn ymgynghoriad ag Adran Adnoddau Dynol y Brifysgol ac yn dilyn trafodaethau manwl ar fodolau posibl o Strategaeth mewn pwyllgorau sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg a gweithredu'r Cynllun. Penderfynwyd ar ddull y Strategaeth gan aelodau Grŵp Gweithredol y Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig a'r Cydbwyllgor ar Ddefnyddio'r Gymraeg.<sup>6</sup>
- 1.7 Cafwyd ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth ar draws y Brifysgol, a gofynnwyd am farn yr Uwch-Reolwyr, Penaethiaid Adrannau a Rheolwr a'r sawl sy'n gyfrifol am benodiadau i swyddi, ynghyd â'r Undebau Llafur.

## 2. Nod y Strategaeth

- 2.1 Prif nod y Strategaeth hon yw hwyluso gweithrediad priodol Cynllun Iaith Gymraeg statudol y Brifysgol a'r Safonau Iaith arfaethedig mewn perthynas â staffio a darparu ei gwasanaethau i'r cyhoedd.<sup>7</sup>
- 2.2 Anelir at brif-ffrydio'r Strategaeth yng nghyd-destun agweddau allweddol ar reolaeth gorfforaethol y Brifysgol. Disgwylir i ofynion y Strategaeth gael eu hystyried wrth gynllunio adnoddau ar lefel sefydliadol ac ar lefel adrannol.
- 2.3 Wrth weithredu yn y modd hwn bydd y Strategaeth yn sicrhau bod gan y Brifysgol yr adnoddau angenrheidiol o ran staff i weithredu gofynion y Cynllun gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth llawn i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd yn eu dewis iaith.
- 2.4 Bydd y Strategaeth yn cynnig dull o drin y Gymraeg fel unrhyw sgil arall a allai fod yn hanfodol neu'n ddymunol, neu'n fanteisiol i rai swyddi. Bydd y Strategaeth yn cyfeirio at ofynion ieithyddol swyddi yn unol â'r lefelau sydd eisoes wedi eu pennu ar gyfer sgiliau llafar a sgiliau ysgrifenedig.
- 2.5 Bydd y Strategaeth yn sicrhau cysondeb ar draws y Brifysgol wrth benderfynu ar ofynion ieithyddol swyddi, ac felly yn sicrhau bod ymgeiswyr am swyddi yn cael eu trin yn deg a chyfartal.
- 2.6 Mae'r pwyslais yn y Strategaeth ar flaengynllunio ar gyfer sicrhau'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ymhen amser ac ni fydd yn newid y sgiliau sydd eisoes wedi'u pennu ar gyfer staff presennol.
- 2.7 Mae'r Strategaeth yn cynnig dull o reoli sgiliau cyfathrebu mewn modd strategol a chynlluniedig.

## 3. Amcanion y Strategaeth

- 3.1 **Sicrhau gofynion ieithyddol gweithleoedd a swyddi a'u diweddarau'n barhaus**
  - 3.1.1 Prif amcan y Strategaeth yw sefydlu mesurau a chanllawiau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt cyson â'r hyn a ddiffinnir gan y Cynllun fel 'cyhoedd' yn anelu at gael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn eu galluogi i ddarparu gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg.

---

<sup>6</sup> Gw. cofnodion y cyfarfodydd perthnasol am wybodaeth bellach.

<sup>7</sup> Diffinnir y cyhoedd gan y Cynllun Iaith Gymraeg fel staff, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r cyhoedd yng Nghymru.

- 3.1.2 Er mwyn gwneud hyn bydd angen cynnal arolwg o ofynion gweithleoedd a swyddi a'u diweddarau'n barhaus, a bydd canllawiau penodol yn cael eu llunio ar gyfer y pwrpas hwn.
- 3.1.3 Bydd sgiliau ieithyddol swyddi academiaidd yn cael eu pennu yn unol â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol gydag ystyriaeth benodol i adrannau sydd wedi derbyn Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a darlithyddiaethau a ariennir gan y Cynllun Staffio Academiaidd.
- 3.1.4 Bydd sgiliau ieithyddol ar gyfer swyddi cefnogol<sup>8</sup> yn cael eu pennu i swydd/i o fewn grŵp (e.e. tîm gweinyddol mewn adran academiaidd) a bydd y lefel a bennir i'r swydd/i yn ddibynnol ar broffil ieithyddol presennol y grŵp. Sefydliar canllawiau i sicrhau bod y lefelau ieithyddol yn cael eu hystyried wrth dynnu rhestr fer, ac wrth gyfweld. Unwaith y penodir deiliad i'r swydd bydd rhaglen o hyfforddiant ieithyddol yn cael ei chynnig yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ei fod ef / ei bod hi yn cyrraedd y lefelau perthnasol. Bydd trefn o fonitro hyn yn cael ei sefydlu.
- 3.1.5 Bydd proffiliau ieithyddol adrannol yn cael eu cynnal a'u cadw gan Adnoddau Dynol a gwneir diweddariadau blynyddol fel rhan o'r broses o ddiweddarau cofnodion cyffredinol am staff. Gofynnir i bennaethiaid adrannau<sup>9</sup> gadarnhau gwybodaeth mewn achosion eithriadol (e.e. pan na dderbynnir cadarnhad o'r manylion gan aelod o staff) a sicrhau bod pob pennaeth adran yn ymwybodol o bwysigrwydd cywirdeb proffil ieithyddol ei a/hadran a'r dylanwad a gaiff ar bennu lefel ieithyddol swyddi newydd.
- 3.1.6 Sicrhau bod staff newydd a benodir yn llenwi holiadur yn cadarnhau eu sgiliau ieithyddol. Bydd cwestiwn ychwanegol hefyd yn y Ffurflen Monitro Ceisiadau a ddosberthir fel atodiad i'r Ffurflen Gais am Swydd yn y Brifysgol yn gofyn i ymgeiswyr nodi a ydynt yn medru'r Gymraeg ai peidio neu yn dysgu'r Gymraeg. Bydd y Ffurflen Gais yn gofyn i ymgeiswyr nodi eu dewis iaith ar gyfer derbyn gohebiaeth, sef Cymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog.
- 3.1.7 Ystyrir gofynion y Strategaeth yn ystod Rownd Gynllunio Flynyddol y Brifysgol, ac yn benodol wrth drafod creu swyddi newydd neu ailbenodi i swyddi. Paratwir cwestiynau penodol yn ymwneud â phroffil ieithyddol yr adran benodol ar gyfer y cyfweiliadau a gynhelir â phob pennaeth adran.
- 3.1.8 Bydd amserlen ar gyfer gweithredu'r Strategaeth fesul adran yn cael ei chytuno gan y Brifysgol a phennaethiaid adrannau.
- 3.1.9 Bydd Adnoddau Dynol yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Strategaeth a'i chanllawiau yn flynyddol, a bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn cyflwyno adroddiad ar y modd y gweithredir y Strategaeth i Swyddfa'r Comisiynydd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Safonau Iaith arafethedig.

## 3.2 **Monitro sgiliau ieithyddol staff presennol a'u diweddarau'n barhaus**

---

<sup>8</sup> Er hwylustod defnyddir y term 'staff cefnogol' i olygu staff clerigol, ysgrifenyddol, gweinyddol ac academiaidd berthynol, h.y. pob swydd nad yw'n swydd academiaidd.

<sup>9</sup> Defnyddir Pennaeth Adran / Pennaethiaid Adrannau yn yr ystyr ehangach yn y Strategaeth hon, sef unrhyw bennaeth / cyfarwyddwr / rheolwr sy'n gyfrifol am broffil staffio mewn adran / canolfan neu wasanaeth.

- 3.2.1 Nodir yn 3.1.6 a 3.1.7 uchod sut y bydd sgiliau iaith staff presennol yn cael eu cynnal a'u cadw a'r modd y diweddarir hyn yn flynyddol.
- 3.2.2 Ni fydd y Strategaeth yn gosod amodau dysgu / gloywi iaith ar staff sydd wedi eu penodi i swyddi cyn dyddiad mabwysiadu'r Strategaeth, ond rhoddir cyfle a chefnogaeth i bawb ddysgu / gloywi'r iaith ac i fanteisio ar yr hyfforddiant datblygiad staff a gynigir.
- 3.2.3 Bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod cymalau'r Cynllun sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn cael eu gweithredu y tu hwnt i'r Strategaeth. Er enghraifft, parheir i sicrhau bod ysgrifenyddion adrannol yn ateb y ffôn yn ddwyieithog a darperir hyfforddiant i'r perwyl hwn.

### 3.3 **Swyddi Academaidd**

- 3.3.1 Yn achos swyddi academaidd yr amcan yw cynnal y lefel bresennol o swyddi lle mae'r Gymraeg yn allweddol.
- 3.3.2 Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i adrannau sydd wedi derbyn, ac a fydd yn derbyn, Ysgoloriaethau Ymchwil, a'r ymrwymiad i greu swyddi academaidd y mae addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn greiddiol iddynt, sy'n amod o'u dyfarnu.
- 3.3.3 Disgwylir i'r Brifysgol gyflwyno strategaeth ar greu swyddi academaidd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn yr achosion hyn.
- 3.3.4 Yn ychwanegol at hyn rhoddir ystyriaeth i ofynion y Cynllun Datblygu Cenedlaethol yng nghyd-destun darpariaeth addysg Gymraeg, a'r modd y llunnir trywydd y ddarpariaeth Gymraeg gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Paneli Pwnc a'r Cyngor Cyllido.
- 3.3.5 Bydd y lefel staffio academaidd yn cyfateb i strategaeth darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a'r strategaeth genedlaethol.

### 3.4 **Swyddi Cefnogol**

- 3.4.1 Rhennir y Strategaeth ar gyfer swyddi cefnogol yn ddwy: bydd pob Pennaeth Adran, cyn i swydd gael ei hysbysebu, yn gorfod ystyried a yw'r Gymraeg yn sgil hanfodol i lefel benodol ai peidio.<sup>10</sup>
- 3.4.2 Yn dilyn y cam hwn, clustnodir cod arbennig a fydd yn dynodi'r gofyniad ieithyddol. Bydd rhif cyntaf y cod yn cyfeirio at ofynion llafar a'r ail rif yn cyfeirio at ofynion ysgrifenedig. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad ag Adnoddau Dynol.
- 3.4.3 Bydd yr ail gam yn ymwneud â datblygu is-strategaethau ar gyfer pob adran, uned neu glwstwr o adrannau'n y Brifysgol. Mae hon yn dasg hirdymor a fydd yn sicrhau datblygu parhaus ar y Strategaeth.

---

<sup>10</sup> Bydd y cam hwn yn cymryd lle y Matrics Sgiliau Ieithyddol yr arferwyd ei lenwi i ddynodi gofynion ieithyddol.

- 3.4.4 Bydd yr amserlen ar gyfer yr is-strategaethau yn cael ei chytuno gan y Brifysgol a'r adrannau unigol, ac yn cael ei gweithredu gan Adnoddau Dynol.
- 3.4.5 O fewn yr is-strategaethau bydd angen sicrhau elfen o hyblygrwydd wrth ystyried anghenion, swyddogaethau a gwasanaethau amrywiol yr adrannau. Amcenir at sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol posibl o'r adnoddau dwyieithog a geir eisoes yn y manau hyn, gan nodi ymhle y mae'r bylchau, a sefydlu gweithdrefnau a fydd yn sicrhau bod yr adnoddau dwyieithog yn ehangu. Datblygir yr is-strategaethau hyn ar sail canfyddiadau'r proffiliau ieithyddol.

#### **4 Hyfforddi, Datblygu a Chefnogi Staff**

- 4.1 I'r sawl a benodir pan ddaw'r Strategaeth hon i rym a bod disgwyl iddynt ddefnyddio'r Gymraeg neu ddysgu / loywi'r iaith i lefel benodol, gwneir hynny'n amod o'u cytundeb, a bydd mesur cynnydd yn rhan amodol o gyfnod prawf y swydd.
- 4.2 Sefydli'r strwythurau i gynnig hyfforddiant ieithyddol i staff a fydd yn cyd-fynd â gofynion y lefelau penodol.
- 4.3 Bydd polisi ar ryddhau staff o'u dyletswyddau i fynychu dosbarthiadau iaith.
- 4.4 Bydd Awdur Preswyl y Brifysgol yn cynnig hyfforddiant gloymi i staff academiaidd.
- 4.5 Bydd y Brifysgol yn mabwysiadu polisi mentora ar gyfer cynnig cyfleoedd anffurfiol i staff sy'n dysgu / gloymi'r iaith i ddefnyddio'r iaith.
- 4.6 Bydd y polisi hefyd yn cynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddatblygu eu sgiliau ac felly yn creu awyrgylch gynhwysol wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yn y Brifysgol.
- 4.7 Bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn parhau i gynnig cyflwyniadau ar ymwybyddiaeth iaith a gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg a fydd ar gael i holl staff y Brifysgol.
- 4.8 Bydd y defnydd o sgiliau dwyieithog gan staff yn cael eu datblygu a'u monitro yn y gweithle wrth i) i benaethiaid adrannau / rheolwyr llinell baratoi adroddiadau ar gynydd cyffredinol unigolion mewn swyddi; ii) wrth i'r adroddiadau hyn gael eu hystyried gan Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Staffio fel rhan o amodau prawf yr unigolion a iii) wrth i Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg baratoi adroddiadau monitro ar weithrediad y Strategaeth.

#### **5 Recriwtio Staff**

- 5.1 Bydd y lefelau ieithyddol a bennir ar gyfer rhai swyddi a'r esboniadau manwl a fydd yn cyd-fynd â hwy yn cael eu cyflwyno mewn modd a fydd yn cymryd i ystyriaeth y broses o recriwtio ymgeiswyr am swyddi. Sicrheir y bydd y disgrifiadau hyn yn gynhwysol ac yn cael eu gweld fel sgiliau cyraeddadwy gan ddarpar ymgeiswyr.
- 5.2 Ni fydd y termau 'hanfodol' a 'dymunol' yn cael eu defnyddio ar eu pennau'u hunain wrth hysbysebu, ond yn hytrach nodir bod lefel penodol o sgiliau yn hanfodol, neu fod y parodwydd i gyrraedd y lefel benodol yn hanfodol ar gyfer swyddi. Gellir defnyddio'r term 'dymunol' ar gyfer swyddi y bennir nad yw lefel

benodol yn hanfodol ond y byddai parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ôl gallu'r unigolyn yn ddymunol.

- 5.3 Bydd y deunyddiau recriwtio a gynhyrchir gan Adnoddau Dynol yn cyfeirio mewn modd cyfeillgar at y cymwyseddau iaith, sef y lefelau, angenrheidiol. Bydd y deunyddiau recriwtio hyn y cael eu targedu mewn modd effeithiol, ac yn sicrhau bod modd addysgu yn fewnol ac yn allanol am arwyddocâd y Strategaeth er mwyn sicrhau nad oes camagraff yn cael ei greu o'r modd y gweithredir Strategaeth fel hon mewn sefydliad dwyieithog.
- 5.4 Rhoddir pwyslais yn y Strategaeth ar yr angen am Gymraeg llafar ar gyfer swyddi a phwysleisio hefyd y cyfleodd ar gyfer derbyn hyfforddiant ar Gymraeg ysgrifenedig ar gyfer rhai swyddi.
- 5.5 Pan fydd adrannau yn cael eu hail-drefnu, sicrheir bod cynllunio ieithyddol yn rhan hanfodol o'r broses.
- 5.6 Sicrheir hefyd bod cyfleoedd ar gael i staff ddefnyddio sgiliau iaith newydd / sgiliau a gafodd eu gloywi ganddynt wedi iddynt dderbyn yr hyfforddiant.
- 5.7 Bydd canllawiau penodol yn cael eu llunio ar gyfer y broses o dynnu rhestr fer a chynnal cyfweiliadau ar gyfer swyddi a hysbysebwr o dan delerau'r Strategaeth. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn cynnwys profion i'w cynnal mewn cyfweiliadau, a fydd yn cyd-fynd â'r lefelau penodol, ynghyd ag amcan o raglen hyfforddiant / ddatblygu ar gyfer y sawl a benodir.

## **6 Arolygu ac Adrodd ar Weithrediad y Strategaeth**

- 6.1 Mae strwythurau eisoes mewn lle ar gyfer adrodd am adnoddau dwyieithog y Brifysgol, sef yr adroddiadau cyson a gynhyrchir gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg i bwyllgorau mewnol a'r adroddiadau blynyddol a gynhyrchir i Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r adroddiadau blynyddol i Swyddfa'r Comisiynydd eisoes yn nodi nifer y staff dwyieithog a'r modd y mae adrannau'n gweithredu'n ddwyieithog, a bydd adroddiad ar weithrediad y Strategaeth yn cael ei ychwanegu at hyn.
- 6.2 Bydd yr adroddiad ar weithrediad y Strategaeth, yn yr un modd â'r adroddiad blynyddol, yn cael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg yn y lle cyntaf.
- 6.3 Bydd yr adroddiad yn cynnwys nifer y swyddi a hysbysebwyd yn unol â chanllawiau'r Strategaeth, nifer y staff a benodwyd i weithredu yn unol â gofynion ieithyddol penodol, eu cynnydd, a'r nifer o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant i gyrraedd gofynion ieithyddol. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am staff eraill a dderbyniodd hyfforddiant ieithyddol y tu hwnt i ofynion y Strategaeth.
- 6.4 Llunnir yr adroddiad hwn gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg mewn ymgynghoriad ag Adnoddau Dynol.

## **CYNLLUN IAITH GYMRAEG DIWYGIEDIG**

### **ATODIAD 2**

### **STRATEGAETH GWEFANNAU DWYIEITHOG**



# STRATEGAETH GWEFANNAU DWYIEITHOG PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

*Diwygiwyd 2014*

## Cyflwyniad

O dan Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, y mae gofyn i'r Brifysgol, fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, baratoi Cynllun Iaith sy'n seiliedig ar yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol a osodir yn y Ddeddf. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig sy'n barhad ac yn ddatblygiad o'r Cynllun Iaith a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2003 yn manylu ymhellach ar sut mae hyn yn berthnasol i wefan y Brifysgol (**cymal 4.5**). Mae'r strategaeth hon hefyd yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn unol â'r Cynllun Iaith Diwygiedig mae gan Brifysgol Aberystwyth strategaeth benodol ar gyfer cyfieithu gwefannau'r Brifysgol. Mae'r strategaeth yn caniatáu hyblygrwydd rhwng y gwefannau yn ôl y blaenoriaethau cyfieithu. Cyfieithir yn unol â rhaglen barhaus mewn ymgynghoriad â'r adolygiad o wefannau a weithredir gan Dîm Gwe'r Brifysgol. Mae'r strategaeth yn gosod y gwefannau mewn dosbarthiadau a fydd yn penderfynu pa lefel o ddwyieithrwydd sydd ei hangen. Gall Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg benderfynu ar flaenoriaethu pa we-ddalennau sy'n ddwyieithog. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod y ffaith bod y wefan yn adnodd sy'n tyfu ac yn newid yn ddyddiol, a bod nifer fawr o staff yn gweithio arni'n feunyddiol. Ar yr un pryd mae adnoddau cyfieithu'r Brifysgol yn gyfyngedig a rhaid blaenoriaethu'r adnoddau hynny i sicrhau'r defnydd gorau o'r gwasanaeth a gynigir. Er bod gweithredu system rheoli cynnwys yn galluogi'r Brifysgol i gadw llygad ar lif gwaith y wefan, mae'n rhaid dosrannu'r adnoddau cyfieithu yn ofalus. Dyma yw amcan y strategaeth hon.

## Y Flaenddalen

Bydd blaenddalen y Brifysgol ([www.aber.ac.uk](http://www.aber.ac.uk)) yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr (y Gymraeg yn gyntaf neu'n uchaf), gan roi'r dewis i ddefnyddwyr ym mha iaith y dymunant ddarllen y tudalennau dilynol. (**4.5.2 CIG Diwygiedig**)

Bydd y tudalennau Cymraeg a Saesneg yn gydradd o ran eu diwyg, eu hansawdd a'u cywirdeb, a byddant yr un mor gyfredol â'i gilydd. (**4.5.9 CIG Diwygiedig**)

## Dosbarthiad adrannau'r wefan

### Dosbarth 1

Disgwylir y bydd yr adrannau yn nosbarth 1 yn hollol ddwyieithog ac y byddir yn anelu at sicrhau bod unrhyw adolygiadau a wneir yn y testun mewn un iaith yn ymddangos yn yr iaith arall ar yr un pryd, neu yn fuan iawn wedi hynny. Fel arfer, dylid gohirio gwneud y testun newydd yn fyw hyd nes ei fod yn barod yn yr iaith arall. Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg am ragor o gyngor os gwelwch yn dda.

Rhoddir gwybodaeth benodol am y ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg ar wefan Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae adrannau Dosbarth 1 yn cynnwys adrannau academiaidd sy'n rhan o strategaeth addysg Gymraeg y Brifysgol a phrif adrannau gwasanaeth y Brifysgol.

### **Rhestr o wefannau Dosbarth 1**

- Adrannau Gwasanaeth
  - Swyddfa Ansawdd a Chofnodion Academiaidd
  - Llety
  - Gwasanaethau Cyngori ar Yrfaeodd
  - Canolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academiaidd
  - Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg
  - Canolfan Ehangu Cyfranogiad
  - Ymchwil, Busnes ac Arloesi
  - Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus
  - Gwasanaethau Dylunio, Gwe, Argraffu a Phost
  - Datblygu a Chysylltiadau Alumni
  - Swyddfa Ystadau
  - Swyddfa Gyllid
  - Cyllid Myfyrwyr
  - Ysgol y Graddedigion (Astudiaethau Uwchraddedig)
  - Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd
  - Adnoddau Dynol
  - Gwasanaethau Gwybodaeth
  - Cynllunio, Llywodraethiant a Gwybodaeth Fusnes
  - Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion
  - Gwasanaethau'r Campws
  - Gwasanaeth Cyswllt Ysgolion a Cholegau
  - Cymorth i Fyfyrwyr
  - Canolfan y Celfyddydau
  - Canolfan Chwaraeon
  - Brynamllwg
  - Gofal Plant
  - Canolfan Adnoddau Iaith
  - Canolfan Gerdd
  
- Adrannau academiaidd sy'n cynnig nifer helaeth o gyrsiau/modiwlau cyfrwng Cymraeg:
  - Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
  - Gwleidyddiaeth Ryngwladol
  - Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
  - Cymraeg
  - Hanes a Hanes Cymru
  - Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes

### **Dosbarth 2**

Disgwylir y bydd cyfran go helaeth o destun gwefannau dosbarth 2 yn ddwyieithog h.y. yn y man lleiaf bydd y tudalennau a grybwyllir yn nosbarth 3 yn ddwyieithog a bydd trafodaeth i sicrhau bod mwy ar gael yn ddwyieithog hefyd. Golyga hyn sicrhau bod tudalennau a

ddefnyddir yn aml, e.e. gwybodaeth gyffredinol ar gyfer israddedigion, gwybodaeth am adnoddau, yn ddwyieithog. Gan fod gwefannau gwahanol yn defnyddio dulliau gwahanol i ddangos eu gwybodaeth, sy'n golygu eu bod yn wahanol iawn i'w gilydd, nid yw'n bosibl nodi yma yn union pa dudalennau a ddylai fod yn ddwyieithog, yn hytrach bydd pob adran yn y dosbarth hwn yn cael ei thrin ar wahân wrth ystyried dwyieithrwydd ei gwefan.

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a restrir yn nosbarth 2 yn cynyddu oherwydd buddsoddiad ariannol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd dosbarthiad yr adrannau hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol ac mae'n bosibl y bydd rhai yn symud i ddsbarth 1.

Er nad oes rhaid i bob tudalen yn nosbarth 2 fod yn ddwyieithog fe ymrwymir i gynnal y lefel bresennol o ddwyieithrwydd.

### **Rhestr o wefannau Dosbarth 2**

- Adrannau academiaidd sy'n cynnig rhywfaint o gyrsiau/modiwlau cyfrwng Cymraeg :
  - Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
  - IBERS
  - Adran Fathemateg a Ffiseg
  - Cyfraith a Throseddeg
  - Seicoleg
  - Ysgol Rheolaeth a Busnes
  - Cyfrifiadureg

### **Dosbarth 3**

Disgwylir y bydd tudalennau mwyaf amlwg a sefydlog y gwefannau hyn yn ddwyieithog e.e. tudalen gartref, croeso'r pennaeth adran, rhestr staff. Fel gyda gwefannau dosbarth 2 bydd pob adran yn y dosbarth hwn yn cael ei hystyried ar wahân er y dylai'r tudalen gartref o leiaf fod yn ddwyieithog.

### **Rhestr o wefannau Dosbarth 3**

- Adrannau academiaidd
  - Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
  - Astudiaethau Gwybodaeth
  - Celf
  - Ieithoedd Ewropeaidd

Mewn achosion lle penderfynwyd nad oedd angen i'r dudalen fod yn ddwyieithog fe gyfeirir y darllynydd at fersiwn Saesneg y dudalen.

Noder, yn ogystal, nad oes angen i'r gwefannau hyn, a anelir at ein myfyrwyr tramor, fod yn ddwyieithog o gwbl.

- Canolfan Saesneg Rhyngwladol
- Recriwtio Rhyngwladol a Chydweithredu

### **Gwefannau Cynadleddau a Digwyddiadau Penodol**

Bydd blaenddalen gwefannau sy'n ymwneud â chynadleddau a digwyddiadau penodol, neu wybodaeth arall a roddir ar y wefan am gyfnod penodol, yn ddwyieithog. Mater i gydlynwyr y trefniadau fydd penderfynu, drwy ymgynghori â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, a yw hi'n briodol cynnwys y tudalennau dilynol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwneir y penderfyniad yn unol â chymal 4.3 y Cynllun Iaith Diwygiedig, ac ar sail lleoliad y digwyddiad, y pwnc dan sylw a phwy sy'n debygol o fod yn bresennol.

### **Amserlen Weithredu**

Bydd yr amserlen o adolygu dwyieithrwydd yr adrannau a nodir uchod yn cyd-fynd ag amserlen Tîm Gwe'r Brifysgol wrth iddynt adolygu ansawdd y wefan. Bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn cydweithio â Thîm y We yn hyn o beth.

Mae adrannau'r Brifysgol wedi eu hailgyflunio yn ddiweddar a daeth Athrofeydd i fodolaeth ym Medi 2013. O ran y wefan golyga hyn fod gan bob Athrofa un dudalen sy'n ei chyflwyno ac yna fe gyfeirir y darlennydd at y gwefannau adrannol unigol. Sicrheir bod y tudalen gyflwyno honno yn gyfredol ac yn ddwyieithog. Serch hynny nid yw'r broses ailgyflunio yn llwyr ar ben ac mae'n bosibl y bydd gofyn diweddarau'r strategaeth a'r amserlen i gyd-fynd ag unrhyw bolisi newydd a fabwysiedir gan y Brifysgol ar gyfer ei gwefan. Bydd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn cadw golwg ar hyn ac yn cynghori Tîm y We yn ôl yr angen.

## **CYNLLUN IAITH GYMRAEG DIWYGIEDIG**

### **ATODIAD 3**

### **Y CYNLLUN ACADEMAIDD CYFRWNG CYMRAEG**

## Cynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg, Prifysgol Aberystwyth

Mae'r tabl isod yn nodi'r pynciau y mae Prifysgol Aberystwyth eisoes yn eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn bwriadu eu datblygu ymhellach, ynghyd â'r pynciau y bydd yn eu datblygu yn Gymraeg drwy fod yn rhan o Gynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

<b>Pwnc</b>	<b>Amcan</b>	<b>Myfyrwyr</b>	<b>Staff</b>	<b>Ymrwymiad</b>
<b>Cymraeg a'r leithoedd Celtaidd</b>	Cyrsiau gradd cyflawn.	Israddedig: 98 Uwchraddedig: 21	11	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Pob un o'r swyddi'n cael eu hariannu gan y Brifysgol. Un ddarlithyddiaeth yn cael ei hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd.
<b>Hanes a Hanes Cymru</b>	Cyrsiau gradd cyflawn.	Israddedig: 79 Uwchraddedig: 11	6	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Un ddarlithyddiaeth yn cael ei hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd a'r gweddill yn cael eu hariannu gan y Brifysgol.
<b>Diwydiannau Creadigol</b>	Cyrsiau gradd cyflawn.	Israddedig: 90 Uwchraddedig: 14	8	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Un swydd yn cael ei hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd a'r gweddill yn cael eu hariannu gan y Brifysgol. 2 Ysgoloriaeth Ymchwil wedi'u hariannu gan y Coleg. Bydd darlithyddiaeth newydd a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael ei lleoli yn yr Adran o Fedi 2014 ymlaen.
<b>Cerddoriaeth</b>	Cydweithio â'r Cydlynnydd Cerddoriaeth i gynnig rhai modiwlau fel rhan o gynlluniau gradd yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu. Gallai myfyrwyr mewn adrannau eraill	Myfyrwyr sy'n gwneud modiwlau cerddoriaeth: Israddedig: 4 Uwchraddedig: 0	1 (tiwtor)	Nid oes gan y Brifysgol Adran Gerddoriaeth ac nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu'r pwnc. Fodd bynnag, mae gan y Brifysgol Ganolfan Gerdd a chynigir ysgoloriaethau i

	fanteisio ar y ddarpariaeth hefyd. Mae trafodaethau i'r perwyl hwn eisoes wedi cychwyn.			fyfyrwyr astudio yn Rhan 1 ac ymuno â'r gerddorfa. Mae modiwlau mewn cerddoriaeth wedi'u cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu wedi gweld cyfle i fanteisio ar fodiwlau a ddatblygir drwy'r cynllun Cerddoriaeth i gyfoethogi profiad ac astudiaethau eu myfyrwyr ffilm.
<b>Astudiaethau Addysg a Phlentyndod</b>	O leiaf 80 credyd.	Israddedig: 45 Uwchraddedig: 54 (gan gynnwys 42 myfyriwr HAGA)	4	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Un swydd yn cael ei hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd a'r gweddill yn cael eu hariannu gan y Brifysgol.
<b>Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon</b>	Cyrsiau cyflawn.	42	7	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol.
<b>Astudiaethau Gwybodaeth</b>	O leiaf 40 credyd.	Israddedig: 7 Uwchraddedig: 22	0	Bydd cynllun datblygu yn cael ei lunio ar gyfer y maes drwy'r Gymraeg a rhagwelir y bydd gan y pwnc gyfraniad sylweddol i'w wneud i'r Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan-amser. Bydd y pwnc yn dod yn rhan o gynllun strategol y Brifysgol.
<b>leithoedd</b>	O leiaf 40 credyd.	Israddedig: 25 Uwchraddedig: 0	1	Bydd cynllun datblygu yn cael ei lunio ar gyfer y maes drwy'r Gymraeg a rhagwelir y bydd gan y pwnc yn genedlaethol gyfraniad sylweddol i'w wneud i'r Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan-amser. Bydd y pwnc yn dod yn rhan o gynllun strategol y Brifysgol.

<b>Y Gyfraith a Throseddeg</b>	O leiaf 80 credyd. Cynllun i ddatblygu'r pwnc i gynnig cyrsiau gradd cyflawn.	Israddedig: 76 Uwchraddedig: 12	3	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Y swyddi'n cael eu hariannu gan y Brifysgol. Dwy Ysgoloriaeth Ymchwil wedi'u hariannu gan y Coleg. Bydd darlithyddiaeth newydd mewn Troseddeg, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn cael ei lleoli yn yr Adran o Fedi 2014 ymlaen.
<b>Gwleidyddiaeth</b>	Cyrsiau gradd cyflawn.	Israddedig: 43 Uwchraddedig: 9	4 (ac 1 deiliad Ysgoloriaeth Ymchwil)	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Un swydd yn cael ei hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd a'r gweddill yn cael eu hariannu gan y Brifysgol. Un Ysgoloriaeth Ymchwil wedi'u hariannu gan y Coleg ac un Ysgoloriaeth Ymchwil newydd o 2012/13 ymlaen. Bydd darlithyddiaeth newydd, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn cael ei lleoli yn yr Adran o Fedi 2014.
<b>Gwyddor Chwaraeon</b>	O leiaf 40 credyd.	Israddedig: 30 Uwchraddedig: 2	0	Y bwriad yn y maes hwn yw cydweithio â phrifysgolion eraill, drwy Banel Pwnc y Coleg, i fanteisio ar fodiwlau a gynnigir yn gydweithredol. Bydd modd i'r adran fanteisio ar ddarpariaeth Gymraeg a gynnigir gan yr Athrofa a fydd yn gartref iddi o Fedi 2014.
<b>Astudiaethau Busnes</b>	O leiaf 40 credyd.	Israddedig: 50 Uwchraddedig: 10	2	Bydd cynllun datblygu yn cael ei lunio ar gyfer y maes drwy'r Gymraeg a rhagwelir y bydd gan y pwnc yn genedlaethol gyfraniad



				sylweddol i'w wneud i'r Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan-amser. Bydd y pwnc yn dod yn rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Bydd darlithyddiaeth newydd, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn cychwyn ym Medi 2014 a bydd y swydd hon yn cydweithio'n agos ag IBERS.
<b>Seicoleg</b>	O leiaf 40 credyd.	Israddedig: 10 Uwchraddedig: 1	1	Ariennir y swydd cyfrwng Cymraeg gan y Brifysgol yn dilyn Cymrodoriaeth dysgu HEFCW. Mae'r adran yn awyddus i gydweithio ag Adran Seicoleg, Prifysgol Bangor, drwy'r Panel Pwnc, a bydd modd iddi fanteisio ar ddarpariaeth Gymraeg yr Athrofa y lleolir hi ynddi o Fedi 2014.
<b>Daeryddiaeth</b>	O leiaf 80 credyd. Cynllun i ddatblygu'r pwnc i gynnig cyrsiau gradd cyflawn.	Israddedig: 90 Uwchraddedig: 8	3	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Dwy swydd yn cael eu hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd. Un swydd newydd wedi'i chreu gan y Brifysgol yn dilyn Ysgoloriaeth ôl-raddedig Cyfrwng Cymraeg.
<b>Gwyddorau Cyfrifiadurol</b>	O leiaf 40 credyd.	Israddedig: 43 Uwchraddedig: 0	2	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Ariennir un o'r darlithyddiaethau drwy Gynllun Staffio Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Cyfrifiadureg o fewn yr un Athrofa â Mathemateg a Ffiseg ac mae'r ddwy adran wedi clustnodi

				cyfleoedd i gydweithio ar fodiwlau a phrosiectau cyfrwng Cymraeg a fydd yn ategu darpariaeth Gymraeg y naill a'r llall.
<b>Mathemateg</b>	O leiaf 40 credyd. Wrth ystyried y pwnc hwn ar y cyd â Ffiseg byddai modd cynnig o leiaf 80 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg drwy fodiwlau sy'n gorgyffwrdd i fyfyrwyr y ddau bwnc.	Israddedig: 36 Uwchraddedig: 1	2 (cefnogaeth cyfrwng Cymraeg gan 1 darlithydd arall)	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Un swydd yn cael ei hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd. Cyfleoedd cydweithio â Chyfrifiadureg o 2013 ymlaen.
<b>Ffiseg</b>	O leiaf 40 credyd. Wrth ystyried y pwnc hwn ar y cyd â Mathemateg byddai modd cynnig o leiaf 80 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg drwy fodiwlau sy'n gorgyffwrdd i fyfyrwyr y ddau bwnc.	Israddedig: 16 Uwchraddedig: 3	1 (cefnogaeth cyfrwng Cymraeg gan 2 aelod arall o staff)	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Un swydd yn cael ei hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd. Cyfleoedd cydweithio â Chyfrifiadureg o 2013 ymlaen.
<b>Gwyddorau Biolegol (IBERS)</b>	O leiaf 40 credyd.	Israddedig: 25 Uwchraddedig: 2	4	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Un swydd wedi'i chreu yn dilyn Ysgoloriaeth ôl-raddedig Cyfrwng Cymraeg.
<b>Gwyddorau Amaethyddol (IBERS)</b>	O leiaf 40 credyd. Cynllun i ddatblygu'r pwnc i gynnig o leiaf 80 credyd.	Israddedig: 105 Uwchraddedig: 2	3	Rhan o gynllun strategol y Brifysgol. Dwy swydd wedi'u hariannu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd. Un Ysgoloriaeth Ymchwil newydd o 2012/13 ymlaen. Bydd IBERS yn cydweithio â'r Ysgol Rheolaeth a Busnes er mwyn datblygu darpariaeth newydd drwy'r swydd a fydd yn cael ei hariannu gan y Coleg o Fedi 2014.

Yn dilyn ail-gyflunio mewnol yn Awst 2013, mae adrannau academaidd y Brifysgol wedi eu lleoli mewn saith Athrofa. Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynllunio ar gyfer darpariaethau dwyieithog o fewn strwythurau'r Athrofeydd o'r cychwyn a bydd cyfrifoldeb penodol ar Gyfarwyddwyr yr Athrofeydd i sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn gofynion y cynllun hwn. Mae Cyfarwyddwyr y Gymraeg a Diwylliant Cymru wedi'u penodi i Fwrdd Rheoli pob un o'r Athrofeydd. Mae Athrofeydd Prifysgol Aberystwyth yn cynnwys yr adrannau academaidd a gwasanaeth canlynol:

- Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
- Athrofa'r Gwyddorau Dynol<sup>11</sup>
  - Adran Seicoleg
  - Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg
  - Adran Mathemateg a Ffiseg
  - Adran Cyfrifiadureg
- Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth
  - Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
  - Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol
  - Adran Hanes a Hanes Cymru
- Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth
  - Adran y Gyfraith a Throsedddeg
  - Ysgol Rheolaeth a Busnes
  - Adran Astudiaethau Gwybodaeth
- Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol
  - Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
  - Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
  - Ysgol Gelf
  - Adran Ieithoedd Ewropeaidd
  - Adran y Gymraeg
  - Canolfan y Celfyddydau
  - Y Ganolfan Gerdd
- Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion

---

<sup>11</sup> Gan mai hon yw'r Athrofa leiaf, bydd y ddwy adran hon yn cael eu gosod mewn Athrofeydd mwy o Fedi 2014.

- Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Canolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd
- Ysgol y Graddedigion
- Gwasanaethau Gyrfaoedd
- Canolfan Ryngwladol Saesneg
- Cymorth Dysgu i Fyfirwyr

Mae'r meysydd a nodir uchod, ac eithrio 5 ohonynt, wedi'u sefydlu ers blynyddoedd yn rhan greiddiol o Gynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol ac yn allweddol i Strategaeth Dysgu ac Addysgu ehangach y Brifysgol. Mae'r cynllunio academaidd cyfrwng Cymraeg yn digwydd ar lefel Athrofaol mewn ymgynghoriad â'r gwasanaeth canolog sy'n goruchwyllo ac yn cefnogi datblygiad y ddarpariaeth Gymraeg, a cheir cefnogaeth sefydliadol wrth i gynlluniau gael eu cymeradwyo ar y lefel uchaf gan Grŵp Gweithredol y Brifysgol mewn trafodaethau â Phenaethiaid Adrannau, Cyfarwyddwyr yr Athrofeydd a Chyfarwyddwyr y Gymraeg a Diwylliant Cymru. Mae pwyllgorau penodol wedi'u sefydlu i gynllunio trywydd strategol y Gymraeg yn y Brifysgol, ac mae Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg a Phwyllgor Cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynghori adrannau ar faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae dyfnder y ddarpariaeth yn yr adrannau hyn yn ddeniadol i fyfirwyr ac yn rhoi cyfle iddynt ddewis a dethol y modiwlau sy'n berthnasol iddynt. Mae cenhadaeth y Brifysgol yn seiliedig, nid yn unig ar ddarparu addysg o'r ansawdd gorau drwy'r Gymraeg, ond ar ddarparu'r isadeiledd angenrheidiol sy'n sicrhau bod profiad y myfyriwr yn un cyflawn wrth dderbyn gwasanaethau academaidd a gweinyddol drwy'r Gymraeg.

Mae **Adran y Gymraeg** wedi chwarae rhan lawn yn y Panel Cymraeg ers ei sefydlu ac ystyrir yr Adran fel un o'r manau gorau i astudio'r Gymraeg. Dilyswyd cynllun gradd israddedig newydd yn yr Adran y llynedd, sef Cymraeg Proffesiynol sy'n canolbwyntio ar hyfforddi myfyriwr i weithio yn y sector dwyieithog yng Nghymru. Yn ystod 2012/13 bydd yr Adran yn datblygu dau gynllun Meistr newydd, Ysgrifennu Creadigol (a fydd yn cynnig cyfle i gydweithio â Theatr, Ffilm a Theledu) a Cymraeg Proffesiynol a fydd yn gam naturiol i'r sawl a fydd wedi dilyn y radd ar lefel israddedig neu fel cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus i fyfirwyr rhan-amser yn y gweithle. Bydd galw am gynllun o'r fath wrth i'r Safonau Iaith gael eu mabwysiadu ac mae trafodaethau i'r perwyl hwn eisoes wedi eu cynnal â rhai partneriaid yn y sector cyhoeddus.

Mae'r **Adran Hanes a Hanes Cymru** wedi datblygu ei darpariaeth Gymraeg dros y blynyddoedd ac wedi llwyddo i sefydlu'r pwnc drwy'r Gymraeg. Mae'r Adran wedi bod yn rhan o'r Panel Hanes ac mae un darlithydd wedi ei benodi yn dilyn Ysgoloriaeth Ymchwil drwy Gynllun Staffio'r Coleg. Mae'r israddedigion sy'n astudio drwy'r Gymraeg yn yr adran hon yn gyfran sylweddol o holl fyfirwyr cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

Yn yr un modd, mae'r Diwydiannau Creadigol wedi eu hen sefydlu yn Aberystwyth a'r **Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu** yw un o brif ddarparwyr cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Mae ystod y ddarpariaeth Gymraeg ar draws yr holl ddisgyblaethau a gynigir yn Theatr, Ffilm a Theledu yn gynhwysfawr ac yn cynnig profiad gwerthfawr i'r myfyriwr. Mae'r Brifysgol yn awyddus iawn i ddiogelu cryfder y ddarpariaeth yn yr

Adran hon gan ei bod yn cyfrannu'n sylweddol at yr ystadegau ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol. Mae'r Adran yn brif ddarparwr yn genedlaethol, ac wrth benodi i swydd newydd, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o Fedi 2014, bydd cyfle i'r adran dorri tir newydd wrth ddatblygu darpariaeth a fydd yn rhychwantu'r holl arbenigedd sydd ar gael ym mhob adran yn yr Athrofa.

Penodwyd darlithyddiaeth a ariennir gan Gynllun Staffio'r Coleg i'r **Ysgol Addysg** ar gyfer 2012/13 ac mae'r darlithydd â gofal am y Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg rhan-amser hefyd wedi ei leoli yno. Bydd hyn yn hwb sylweddol i ddarpariaeth Gymraeg yr Ysgol ac mae cyfleoedd i'r Ysgol gydweithio ar draws y Brifysgol ac yn genedlaethol i ddatblygu ei darpariaeth Gymraeg ymhellach. Mae'r Ysgol Addysg, fel rhan o'i gwaith drwy'r Athrofa, yn gyfrifol am ddatblygu Hyfforddiant Ymchwil drwy'r Gymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydweithio â'r Coleg Cymraeg i ddatblygu hyfforddiant ymchwil.

Mae **Adran y Gyfraith a Throsedd** yn un o'r prif ddarparwyr drwy'r Gymraeg yn genedlaethol ac wedi cyfrannu'n helaeth at waith y Panel gan ddatblygu modiwlau cydweithredol a chydweithio â sefydliadau eraill i gynnig darpariaeth ar y cyd. Fel pwnc galwedigaethol ei natur mae potensial i'r maes hwn a'r amcan yw creu dwy swydd newydd a fydd yn deillio o'r Ysgoloriaethau Ymchwil. Bydd yr Adran yn dyfnhau ei darpariaeth mewn Trosedd, ac yn cyfrannu at y cynllun cenedlaethol yn y pwnc, wrth benodi i ddarlithyddiaeth a ariennir gan y Coleg Cymraeg o Fedi 2014.

Clustnodwyd **Gwleidyddiaeth** yn Aberystwyth fel y prif ddarparwr a'r Adran yw'r unig un sy'n cynnig darpariaeth yn y maes drwy'r Gymraeg. Mae cynllun strategol yr Adran wedi datblygu dros y blynyddoedd ac mae'n dechrau ar gyfnod newydd a fydd yn archwilio'r posibiladau o gydweithio ym maes y gwyddorau cymdeithasol drwy waith Swyddog Prosiect Gwyddorau Cymdeithas y Coleg Cymraeg a leolir yn Aberystwyth.

Er nad yw'r cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn **Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon** mor ddatblygedig â meysydd eraill, bydd cyfle nawr i ailedrych ar y modd y cynnigir modiwlau drwy'r Gymraeg yn y meysydd hyn drwy gyfuno'r potensial o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n y ddau faes wrth iddynt ddod yn rhan o Athrofydd sydd eisoes yn darparu'n helaeth drwy'r Gymraeg. Bydd y ddwy adran yn manteisio ar ddarpariaeth gydweithredol sydd ar gael drwy'r Paneli Pwnc.

Mae'r **Sefydliad Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear** yn un o brif ddarparwr cyfrwng Cymraeg y Brifysgol ac yn genedlaethol. Mae hon yn enghraifft dda o adran sydd wedi cynllunio ei darpariaeth yn strategol ac yn llwyddiannus. Mae'r adran yn arloesi wrth ddefnyddio dulliau dysgu newydd a'r dechnoleg ddiweddaraf ac mae diogelu'r ddarpariaeth yn yr adran hon yn allweddol i strategaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

Mae 4 o'r meysydd, sef Astudiaethau Gwybodaeth, Ieithoedd, Astudiaethau Busnes, Cyfrifiadureg a Cherddoriaeth wedi'u clustnodi'n feysydd i'w datblygu drwy'r Gymraeg er bod hanes o ddarparu elfennau o'r pynciau hyn drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol eisoes. Credir mai dyma'r cam strategol nesaf i'r Brifysgol wrth gynllunio ei darpariaeth Gymraeg a'r bwriad fyddai ymgeisio am ddarlithyddiaethau ac ysgoloriaethau yn rhai

o'r meysydd hyn. Rhagwelir bod cyfraniad pwysig gan **Astudiaethau Gwybodaeth** i'w wneud i'r Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan-amser, ac mae'r Adran wedi mynegi diddordeb mewn ymgeisio am ddarlithyddiaeth ac ysgoloriaeth ymchwil. Mae darpariaeth yr Adran yn seiliedig ar y farchnad uwchraddedig ac mae cyfleoedd niferus yma i ddatblygu cynlluniau Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn partneriaeth â sefydliadau megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru a CyMAL. Bydd modd elwa o brofiad yr Adran hon o ddysgu o bell wrth ddatblygu'r Cynllun rhan-amser. Yn yr un modd, mae **leithoedd** yn faes pwysig ei gyfraniad i'r Cynllun rhan-amser ac mae'r data yn dangos hefyd bod nifer o israddedigion traddodiadol sy'n siarad Cymraeg yn dod i Aberystwyth i astudio yn yr Adran leithoedd Ewropeaidd. Rydym yn ymwybodol o'r trafodaethau cenedlaethol sy'n digwydd yn y maes ac yn dymuno bod yn rhan o'r datblygiadau gan fanteisio ar unrhyw ddarpariaeth gydweithredol a grëir. Mae nifer y myfyrwyr israddedig sy'n astudio **Busnes** ac sy'n medru'r Gymraeg yn sylweddol iawn yn Aberystwyth. Mae potensial i'r maes hwn ar sawl lefel a cheir cyfleoedd cyffrous i ddatblygu cynlluniau gradd ar y cyd â disgyblaethau eraill a fydd yn ein galluogi i gynyddu'r cofrestriadau cyfrwng Cymraeg. Rhagwelir y bydd mwy o fyfyrwyr yn gweld apêl cynlluniau gradd galwedigaethol eu natur a byddai cynllun gradd cyfrwng Cymraeg mewn busnes yn Aberystwyth yn ddeniadol fel cynllun sengl ond hefyd yn gweddu'n dda â meysydd eraill sy'n gryfder inni, megis y Diwydiannau Creadigol, Cymraeg a'r gwyddorau (a'r ddarpariaeth a gyngir gan IBERS yn benodol). Mae **Cyfrifiadureg** yn faes sydd hefyd yn denu siaradwyr Cymraeg ac, o fewn strwythur yr Athrofa, bydd cyfle gwirioneddol i Gyfrifiadureg gydweithio'n agos â Mathemateg a Ffiseg i ddatblygu cynllun gradd unigryw drwy'r Gymraeg. Mae'r Sefydliad Mathemateg a Ffiseg eisoes wedi adnabod hyn fel cyfle (mae un o'r darlithwyr a ariennir drwy Gynllun Staffio'r Coleg yn yr adran yn gynfyfyrwr Cyfrifiadureg) er mwyn datblygu eu strategaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach. Nid oes gan y Brifysgol fwriad i ddatblygu **Cerddoriaeth** fel pwnc cyflawn ond rydym yn dymuno manteisio ar unrhyw ddarpariaeth gydweithredol a sefydlir fel rhan o'r cynllun cenedlaethol yn y pwnc. Mae trafodaethau eisoes wedi'u cynnal rhwng yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu a'r Cydlynnydd Cerdd ac mae posibiliadau i gyfranogi o ddarpariaeth ym maes Cerddoriaeth a Ffilm.

Ionawr 2014